@schthgc_nwopcc
@NorthWalesPCC
opccnorthwales
schthgc_nwopcc

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

# Adroddiad Blynyddol
2021/2022



www.northwales-pcc.gov.uk



# CYNNWYS


RHAGYMADRODD ........ **05**

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH EFFEITHIOL .. **06**

CYNLLUN HEDDLU A THROSEDD ........ **13**

- **DARPARU CYMDOGAETHAU MWY DIOGEL** ........ **14**
- **CEFNOGI DIODDEFWYR A CHYMUNEDAU** ........ **22**
- **SYSTEM CYFIAWNDER TROSEDDOL TEG AC EFFEITHIOL** ........ **40**

ARIANNU A CHYLLID ........ **52**

COMISIYNU GWASANAETHAU ........ **54**

SUT I GYMRYD RHAN ........ **59**

ATODIAD A ........ **61**





# RHAGYMADRODD

Croeso i fy Adroddiad Blynyddol 2021-2022, sy'n cwmpasu'r cyfnod o fis Ebrill 2021 i fis Mawrth 2022. Dyma fy adroddiad blynyddol cyntaf fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) ers cael fy ethol ym mis Mai 2021.

Roedd 2021/22 yn flwyddyn heriol arall, nid yn unig i Heddlu Gogledd Cymru (HGC) ond i holl wasanaethau heddlu'r Deyrnas Unedig. Yn dilyn pandemig Covid-19, herwgipio, treisio a llofruddiaeth trasig Sarah Everard, aflonyddwch sifil a llawer o heriau eraill yn ystod y flwyddyn hon. Mae'n glod mawr felly i swyddogion, staff a gwirfoddolwyr Heddlu Gogledd Cymru fod 2021/22 yn flwyddyn lwyddiannus arall i Heddlu Gogledd Cymru wrth iddynt barhau i ddarparu gwasanaeth plismona rhagorol i'n cymunedau yn ystod cyfnod heriol. Fel y mae'r adroddiad hwn yn ei amlygu, mae cymaint wedi'i gyflawni yn ystod cyfnod o her fawr.

Mae wedi bod yn flwyddyn arall lle mae Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar yr Heddlu, fel y manylir yn yr adroddiad hwn. Wrth edrych yn ôl ar y flwyddyn, rhaid i ni gydnabod cyfraniad ein gwirfoddolwyr. Nid swyddogion a staff amser llawn yn unig sydd wedi chwarae rolau allweddol, gyda'n Heddlu Gwirfoddol yn neilltuo miloedd o oriau eleni, gan ddarparu presenoldeb gweladwy a chalonogol yn ein cymunedau a gweithredu'r cyfyngiadau lle cawsant eu torri.

Ar adeg ysgrifennu, rydym bellach yn gweld llacio'r cyfyngiadau i bwynt lle mai ychydig iawn ohonynt sydd ar ôl. Ni fyddwn yn anghofio'r ddwy flynedd ddiwethaf a'r effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar ein cymunedau. Yn wir, mae'n debygol y gwelwn yr effaith honno'n parhau am gyfnod hir i ddod. Fy mwriad i, a'r Prif Gwnstabl, yw gweithio mewn partneriaeth o hyd er mwyn mynd i'r afael â heriau wrth iddynt godi, a bydd y gwaith a wnaed yn y pandemig yn wers o'r hyn y gallwn ei gyflawni wrth weithio gyda'n gilydd.

Ar ddechrau'r adroddiad blynyddol hwn hoffwn ddiolch yn ddiffuant i holl swyddogion, staff a gwirfoddolwyr Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHTh) am eu gwaith caled a'u hymroddiad ac am y ffordd y maent wedi fy nghroesawu ers i mi gael fy mhenodi. Dymunaf hefyd ddiolch i gymunedau gogledd Cymru am eu hymrwymiad a'u cefnogaeth ers i mi gael fy ethol.

**Andrew Dunbobbin**

Comisiynydd Heddlu a Throsedd

# GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH EFFEITHIOL




Fel Cynghorydd lleol profiadol, cyn Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog a Gweithiwr Allgymorth Arloesedd Cymdeithasol rwyf wedi gweld â'm llygaid fy hun fanteision gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Roedd yn amlwg yn gynnar iawn bod angen ffocws clir ar weithio mewn partneriaeth i fod yn wirioneddol effeithiol fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae llawer o'r heriau rwy'n eu hwynebu fel CHTh yn rhai na all yr heddlu fynd i'r afael â hwynt ar eu pen eu hunain ac mae angen gweithio mewn partneriaeth arloesol ac effeithiol i wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Mae gen i dîm bach o staff ymroddedig sy'n gweithio ochr yn ochr â mi a'r Heddlu i sicrhau bod y Cynllun Heddlu a Throsedd yn cael ei gyflawni a bod fy holl ddyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni. Mae'r tîm yn cynnwys dau swyddog statudol, sef y Prif Swyddog Gweithredol a'r Prif Swyddog Cyllid. Yn ogystal, mae gennyf hefyd Ddirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd, Wayne Jones sydd wedi gwneud cyfraniad aruthrol ers iddo gael ei benodi ym mis Medi 2021, a staff cymorth sy'n arbenigo mewn ymchwil, craffu a pholisi, llywodraethu, cyllid, comisiynu a chyfathrebu. Eleni, cyflwynwyd swydd newydd, Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu i SCHTh, sydd eisoes wedi dod â nifer o fanteision. Rwy'n ddiolchgar iawn iddynt i gyd am eu cefnogaeth ers cael fy ethol. Ceir manylion llawn y strwythur staffio ar fy ngwefan.

Ar ddechrau'r flwyddyn adrodd, roedd y rhaglen frechu Covid-19 yn cyflymu ac roedd ein hysbytai Enfys yn cyflawni swyddogaeth canolfannau brechu torfol, ysbytai a sefydlwyd trwy weithio mewn partneriaeth o dan nawdd y Grŵp Cydgysylltu Strategol y bu Heddlu Gogledd Cymru yn ei gadeirio drwy gydol y pandemig.

Mae Heddlu Gogledd Cymru unwaith eto wedi chwarae rhan allweddol mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill ar draws y Gogledd i ddod o hyd i ffordd drwy'r pandemig. Cefnogodd yr Heddlu hyfforddiant ac ymarferion gyda chydweithwyr o Iechyd, Awdurdodau Lleol, gwasanaethau brys eraill a'r tîm gwydnwch lleol i enwi dim ond rhai. Mae'r Heddlu wedi cynorthwyo i sicrhau cysondeb mewn gweithgarwch gorfodi ar draws yr ardal. Mae'r Heddlu hefyd wedi helpu i sicrhau bod partneriaid yn rhannu gwybodaeth am faterion yn ymwneud â Covid-19 ac yn parhau i fynychu cyfarfodydd aml-asiantaeth sy'n ymwneud â'r pandemig.

Mae newidiadau a wnaed yn yr ymateb i'r pandemig yn golygu bod yr Heddlu yn datblygu'n sefydliad gwahanol, gyda gweithlu llawer mwy ystwyth a hyblyg. Mae ein darpariaeth TG wedi cael ei gwella gan alluogi swyddogion a staff i weithio o bell pan fo angen ac ar draws yr ystâd blismona gyfan.

Fel yr adroddwyd yn adroddiad blynyddol y llynedd, ym mis Chwefror 2020 daeth Heddlu Gogledd Cymru yn Llu arweiniol ar gyfer y **Rhwydwaith Ymchwilio Fforensig i Wrthdrawiadau Cerbydau** (FCIN). Fel CHTh yr heddlu arweiniol y rhwydwaith hon, rwy'n cynrychioli'r holl Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd ar Fwrdd Rheoli FCIN sy'n cael ei gadeirio gan ein Dirprwy Brif Gwnstabl Richard Debicki. Ers hynny, mae rhaglen waith heriol a chyflym wedi rhoi rhwydwaith yr FCIN ar ei thraed, wrth i ymdrechion gael eu gwneud i gyflawni achrediad ISO (Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Safoni) ar gyfer y sylfaen arweiniol o fewn y terfyn amser ym mis Hydref 2022 a osodwyd gan y Rheolydd Gwyddoniaeth Fforensig.

Ers yr adroddiad diwethaf mae'r FCIN wedi bod yn datblygu safonau gwyddonol trwyadl ar gyfer pob gweithgaredd, tra'n sicrhau bod ymchwilwyr gwrthdrawiadau ar y ffyrdd yn cael eu hyfforddi a'u hasesu'n annibynnol fel ymarferwyr cymwys. Mae'r broses hon yn rhoi dilysiad i'r ymarferwyr, a'r system cyfiawnder troseddol ehangach, o'u gwyddoniaeth a mwy o hyder yn eu statws fel tystion arbenigol yn y ddisgyblaeth fforensig hynod dechnegol hon. Mae'r gwelliannau hyn yn parhau i yrru ein huchelgais i leihau marwolaethau ac anafiadau difrifol ar ein ffyrdd trwy gael dealltwriaeth gywir o ffactorau achosol y gwrthdrawiadau rydym yn ymchwilio iddynt. At hynny, bydd gwaith yn y maes hwn yn ategu fy mlaenoriaeth yn y Cynllun Heddlu a Throsedd o wella diogelwch ar y ffyrdd.

Yn naturiol, gan ei fod yn un o'r gwasanaethau Heddlu cyntaf i ymgymryd ag achrediad o dan y model rhwydweithiol hwn, mae'r FCIN wedi wynebu nifer o heriau cymhleth. Mae rhai o'r heriau hyn eto i'w datrys, ond rwyf wedi cael fy sicrhau y bwriedir defnyddio llawer iawn o ymrwymiad, egni ac arbenigedd o fewn Heddlu Gogledd Cymru, y FCIN a'n partneriaid a rhanddeiliaid sy'n cydweithio i wneud y rhwydwaith yma'n llwyddiant. Er bod y rhaglen wedi profi peth siom, mae'r Bwrdd Rheoli yn parhau'n ddiysgog yn ein cred y gallwn gyflawni ein nod a darparu gallu fforensig achrededig i bob gwasanaeth Heddlu, unwaith y bydd y sylfaen gywir yn ei lle.

Mae'r **Gynghrair Plismona** yn ffrwyth cydweithredu rhwng Heddlu Swydd Gaer a Heddlu Gogledd Cymru i ddarparu plismona arfog a chŵn heddlu arbenigol ar draws ardaloedd y ddau heddlu 24/7. Mae hyn yn caniatáu ymateb effeithiol ac effeithlon i ddigwyddiadau sy'n peri'r risg mwyaf er mwyn cadw ein cymunedau'n ddiogel.

Mae'r Gynghrair hefyd yn rhan o Gydweithrediad Plismona Arfog Rhanbarthol y Gogledd Orllewin, gan gynnwys Heddluoedd Glannau Mersi, Manceinion Fwyaf a Cumbria sy'n darparu hyfforddiant arfau saethu, hyfforddiant rheoli gynnau a gweithredu ar y cyd ar draws yr heddluoedd rhanbarthol hyn.

Gostyngodd y defnydd o ddrylliau a gynnau yn Swydd Gaer a Gogledd Cymru yn sylweddol yn ystod 2020 oherwydd cyfyngiadau'r cyfnodau clo, gan arwain at lai o ymweliadau gan bobl sydd angen eu gwarchod a llai o achosion troseddu digymell. Adlewyrchwyd y duedd hon yn genedlaethol.

| | 2017 | | 2018 | | 2019 | | 2020 | | 2021 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Defnydd Gynnau wedi'i gynllunio** | **63** | | **48** | | **68** | | **36** | | **33** | |
| Swydd Gaer / Gogledd Cymru | 31 | 32 | 29 | 19 | 33 | 35 | 27 | 9 | 18 | 15 |
| **Defnydd Gynnau heb ei gynllunio** | **196** | | **268** | | **298** | | **212** | | **268** | |
| Swydd Gaer / Gogledd Cymru | 127 | 69 | 177 | 91 | 211 | 87 | 143 | 69 | 199 | 69 |
| **Cyfanswm Defnydd Gynnau** | **259** | | **316** | | **366** | | **248** | | **301** | |
| Swydd Gaer / Gogledd Cymru | 158 | 101 | 206 | 110 | 244 | 122 | 170 | 78 | 217 | 84 |

Wrth i'r mesurau clo lacio, dechreuodd y Gynghrair weld cynnydd yn nifer y gynnau a ddefnyddiwyd, gyda'r lefelau'n dychwelyd erbyn diwedd 2021 i'r hyn a welwyd cyn y pandemig.




## ADRAN CŴN

Mae'r Gynghrair bellach wedi'i staffio'n llawn o ran ei sefydlu, gyda chwe thriniwr ar dimau gweithredol, pob un yn gweithio ochr yn ochr â'r swyddogion gynnau. Drwy gael y nifer priodol o drinwyr cŵn yn yr uned, mae'r swyddogion yn agosach at ddigwyddiadau pan fyddant yn digwydd, gan arwain at gynnydd mewn canlyniadau cadarnhaol o ganlyniad i leoli'r cŵn. Mae'r tîm mewn sefyllfa llawer gwell i ddarparu gallu chwilio arbenigol i gefnogi plismona lleol a gweithrediadau lefel dau.

Mae gan y Gynghrair gyfanswm o 38 ci trwyddedig gweithredol ar hyn o bryd – wedi'u rhannu rhwng 24 ci pwrpas cyffredinol a 12 ci chwilio arbenigol sydd wedi'u hyfforddi i chwilio am gyffuriau, gynnau ac arian parod.

Mae'r Gynghrair wedi cynyddu gallu cŵn cymorth arfau tanio yn yr uned gyda 12 ci wedi'u hyfforddi. Mae hwn yn sgil ychwanegol a ddarperir i'r cŵn pwrpas cyffredinol sy'n rhoi opsiwn arall gwerthfawr.

Mae'r **Cyd-bwyllgor Archwilio** yn bwyllgor sy'n cynnwys pum aelod annibynnol ac mae'n elfen allweddol o lywodraethu corfforaethol Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstabl Gogledd Cymru. Diben y Cydbwyllgor Archwilio yw rhoi cyngor a sicrwydd annibynnol i mi a'r Prif Gwnstabl ar ddigonolrwydd y fframweithiau llywodraethu a rheoli risg, yr amgylchedd rheoli mewnol, ac adrodd ariannol, a thrwy hynny helpu i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithlon ac effeithiol yn eu lle.

Croesawodd y Pwyllgor dri aelod newydd o 1 Ebrill 2021. Yn 2021/22, roedd effaith Covid-19 yn parhau i olygu bod angen dull gwahanol o fynd i'r afael â chyfrifoldebau'r Pwyllgor a'r holl bartïon cysylltiedig. Cynhaliwyd pob cyfarfod yn rhithiol. Ymatebodd pawb i'r her hon er mwyn sicrhau cyflawni effeithiol ac yn effeithlon, a hoffwn ddweud yn ddiffuant fy mod yn ddiolchgar iddynt am hynny. Mae'r Prif Gwnstabl a minnau'n diolch i holl aelodau'r pwyllgor am eu cyfraniad cryf a'u hymroddiad drwy gydol y flwyddyn.

Mae **proses gwyno** effeithiol gan yr heddlu yn hanfodol i ddarparu'r gwasanaeth plismona y maent yn ei haeddu i'n cymunedau. Yn anffodus, ar brydiau nid yw rhai gwasanaethau yn cael eu cyflawni i foddhad pobl felly byddant yn cyflwyno cwyn fel modd o ddatrys eu hanfodlonrwydd.

Mae Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Gogledd Cymru yn gyfrifol am reoli holl gwynion y cyhoedd am swyddogion heddlu, staff yr heddlu, yr Heddlu Gwirfoddol, a'r gwasanaeth plismona. Mae'r Adran Safonau Proffesiynol yn adran annibynnol o fewn yr Heddlu, a bydd yn cofnodi, asesu, ymchwilio, a chyfeirio achosion yn ôl yr angen i Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC). Mae'r Adran Safonau Proffesiynol a'r IOPC yn delio â'r cwynion a'r materion ymddygiad mwy difrifol ond gan fod cymaint o anfodlonrwydd yn gofyn am ddatrysiad cyflym, mae gan yr Heddlu adran arall, sef yr Uned Ymateb a Reolir a all ddarparu adferiad gwasanaeth cyflym i foddhad yr achwynydd. Rwyf wedi gweithio'n agos gyda'r Prif Gwnstabl i sicrhau bod yr Adran Safonau Proffesiynol a'r Uned Ymateb a Reolir yn cydweithio i sicrhau bod yr adran fwyaf priodol yn ymdrin â chwynion gyda'r nod o ddatrys cwynion mor gyflym ac effeithiol â phosibl.

Cafodd y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chwynion yr heddlu ei diwygio ym mis Chwefror 2020 gyda mwy o bwyslais ar ddelio â chwynion yn gyflym. Mae'r rheoliadau newydd wedi ceisio gwneud y system gwynion yn fwy ymatebol ac annibynnol gan ganolbwyntio fwy ar y cwsmer. At hynny, bwriedir i reoliadau ymwneud llai â rhoi bai, a mwy ar wella gwasanaethau, dysgu a chael unigolion a sefydliadau i fabwysiadu'r yr hyn a ddysgwyd.

Er fy mod yn hyderus bod gan y Prif Gwnstabl system gwyno effeithiol ar waith, mae Bwrdd Craffu'r Adran Safonau Proffesiynol yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd dan gadeiryddiaeth fy Mhrif Weithredwr ac mae'r Dirprwy Brif Gwnstabl yn bresennol fel yr Awdurdod Priodol ar gyfer cwynion. Cynhelir y cyfarfodydd hyn i drafod a monitro perfformiad mewn perthynas â chwynion, i graffu sut mae dysgu wedi'i fabwysiadu a'i roi ar waith i sicrhau bod yr Heddlu yn gwella'r gwasanaeth i'n cymunedau yn barhaus. Yn ogystal â'r craffu hwn, caiff ffeiliau cwynion eu gwirio ar hap gan fy staff a fydd yn adrodd am faterion i Bennaeth yr Adran Safonau Proffesiynol ac i'r Bwrdd Craffu yn ôl yr angen.

Yn ogystal â'r dyletswyddau uchod, rwy'n gyfrifol fel y Corff Adolygu Perthnasol am gwynion yr heddlu nad ydynt yn cyrraedd y trothwy atgyfeirio i'r IOPC. Bydd adolygu cŵyn yn ystyried a oedd y broses gwyno a'r canlyniad yn rhesymol a chymesur. Os nad oedd, byddaf yn cynnal adolygiad ac yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod Priodol drwy'r Adran Safonau Proffesiynol. Gall yr argymhellion gynnwys ailystyried y gŵyn, ystyried dysgu unigol neu sefydliadol neu gyfeirio'r gŵyn ar gyfer ymchwiliad.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi cael 37 adolygiad, ac mae pedwar ohonynt wedi'u cadarnhau. Rwy'n gweithio'n agos gyda'r Adran Safonau Proffesiynol i sicrhau bod yr adolygiadau hyn yn cael eu datrys er boddhad yr achwynydd a minnau fel y Corff Adolygu.

Fel pob maes o wasanaeth yr heddlu, roedd yn rhaid i ddarpariaeth y ddalfa hefyd ymateb i bandemig Covid-19, gydag arferion gwaith diwygiedig, llysoedd cadw yn y ddalfa rhithiol, cefnogaeth gyfreithiol trwy gysylltiadau fideo, masgiau Offer Amddiffynnol Personol (PPE), menig, gogls, ffedogau a Phrofion Llif Ochrol (LFT). Bu'n rhaid i'r cynllun ymweld â dalfeydd hefyd addasu i ymweliadau o bell yn ystod y cyfnodau clo gydag **Ymwelwyr Annibynnol â'r Dalfa** yn siarad â charcharorion trwy intercom y gell neu ffonau'r ddalfa. Ar ôl i gyfyngiadau gael eu codi, ailddechreuodd ein Hymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ag ymweliadau corfforol a chymorth, ond gan barhau i ddefnyddio offer amddiffyn personol a phrofion llif ochrol.



Ni ellid bod wedi cyflawni hyn heb gefnogaeth uwch swyddogion y ddalfa, staff y ddalfa ac wrth gwrs yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa. Hoffwn ddiolch i bawb am eu hyblygrwydd a'u hymrwymiad. Rwyf wedi ymweld â dalfeydd ac rwyf wedi cynnal ymweliad dalfa fy hun. Felly, rwyf wedi gweld â'm llygaid fy hun y gwaith gwych a wneir gan staff y ddalfa ac Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa.

Mae ymweliadau annibynnol â dalfeydd yn rhan hanfodol o'm gwaith, a dyma sut rwy'n rhoi sicrwydd i'n cymunedau bod dalfeydd yr heddlu yn ddiogel ac yn gyfreithlon, gan drin carcharorion ag urddas a pharch. Rhoddir mynediad i bob dalfa i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a maent yn gallu siarad â phob carcharor, gan roi cyfle i'r carcharorion gael sgwrs ddiduedd ac i fynegi unrhyw bryderon. Mae'n bleser gennyf adrodd bod yr adborth o'r sgyrsiau hynny'n rhoi'r sicrwydd i mi fod carcharorion sy'n cael eu cadw yn nalfeydd y Gogledd yn hynod o ddiogel a bod eu hawliau'n cael eu parchu.

Yn ystod y flwyddyn hon roedd gennym 24 o Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yng ngogledd Cymru a gynhaliodd 120 o ymweliadau annibynnol gan siarad â 287 o garcharorion.

Rwyf hefyd yn falch o adrodd ein bod, yn ystod blwyddyn gyntaf y pandemig, wedi recriwtio mwy o Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa i ymuno â'r Cynllun a'u bod bellach wedi'u hyfforddi'n llawn ac yn ymweld â'r dalfeydd. Ni allaf ddiolch digon iddynt am dderbyn y cyfrifoldeb o gyflawni'r rôl werth chweil hon yn ystod cyfnod mor anodd.

Yn anffodus, yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae nifer o ymwelwyr â'r ddalfa wedi gadael y cynllun oherwydd problemau iechyd neu ofynion eu bywyd personol neu eu gwaith. Unwaith eto, gwerthfawrogir eu cefnogaeth drwy gydol eu hamser gyda ni.

Mae amgylchedd y ddalfa yn faes heriol, mae pobl sydd wedi'u cadw yn aml yn byw bywydau anhrefnus ac yn profi problemau iechyd meddwl neu gaethiwed i sylweddau. Gall Ymwelwyr â'r Ddalfa ynghyd â staff y ddalfa a darparwyr cynllun dargyfeirio atgyfeirio carcharorion at wasanaethau cymorth a all helpu i'w llywio oddi wrth y system cyfiawnder troseddol. Rwyf hefyd wedi sicrhau gwasanaeth a all ddarparu oedolion priodol i gefnogi pobl agored i niwed tra byddant yn cael eu cadw yn nalfa'r heddlu. Unwaith eto, rwy'n gobeithio y bydd hyn yn rhoi sicrwydd i'n cymunedau pa mor bwysig yw lles carcharorion i mi.

Mewn partneriaeth â Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Swydd Gaer, rwyf wedi penodi saith cynrychiolydd o'r gymuned leol i arsylwi ac adrodd ar yr amodau a'r cyfleusterau ar gyfer cartrefu, hyfforddi, cludo a defnyddio cŵn heddlu.

Mae **Ymwelwyr Lles Cŵn** yn ymweld â'r cenelau a'r meysydd hyfforddi bob tair wythnos a'u prif faes yw lles cŵn yr heddlu. Mae unrhyw bryderon a nodir yn cael eu hadrodd i Ringyll yr Uned Gŵn a Gweinyddwr y Cynllun. Mae gwerth adborth o'r fath wedi arwain at waith yn cael ei wneud i wella cyfleusterau ymolchi, draeniad a gwell cysgod ar gyfer cŵn sy'n cael eu cadw yng nghenelau'r heddlu.

Hoffwn ddiolch i'r staff yn fy swyddfa am recriwtio gwirfoddolwyr mor angerddol ac ymroddedig a diolch i'r ymwelwyr am eu cefnogaeth a'u gwaith caled yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Er gwaethaf y cyfyngiadau ar symud a chyfyngiadau eraill parhaus, yn 2021/22 bu **PACT (Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned)** yn parhau i gefnogi grwpiau cymunedol ledled y Gogledd gydag amrywiaeth eang o brosiectau a chyllid, y mae llawer ohonynt wedi ymddangos yn y wasg leol a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r rhain wedi cynnwys Sefydliad Achub Mynydd Dyffryn Ogwen, Clwb Pêl-droed Ieuenctid Phoenix Coedpoeth a Chyfeillion y Cob yn y Rhyl, a gafodd sylw hefyd ar Newyddion ITV Cymru am eu gwaith yn cefnogi pobl ifanc ac oedolion ynysig a bregus.

Mae PACT hefyd wedi gallu cefnogi grwpiau cymunedol gan gynnwys Cyfeillion Parc y Bermo, Cymdeithas Affricanaidd Gogledd Cymru, Môn SAR, Cyfeillion Parc y Frenhines, Llandudno a phobl ifanc Clwb Pêl-fasged Cadair Olwyn Raptors y Rhyl, ynghyd ag amrywiaeth o brosiectau sydd nid yn unig yn cefnogi amcanion elusennol PACT ond hefyd yn gwella bywydau trigolion lleol ac annog ymgysylltu â thimau plismona lleol.

Trwy ddefnyddio Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu ac arian cyfatebol a dderbyniwyd gan CGI (cyflenwr TGCh yr heddlu), roedd PACT hefyd yn gallu parhau i gefnogi Timau Plismona Bro gyda'r Gronfa Grantiau Bach a gwelwyd cynnydd o 67% yn nifer y grantiau bach a roddwyd o'i gymharu ag 2020/21.

Mae Cronfa Ieuenctid Trechu Trosedd yr Uchel Siryf wedi parhau i gefnogi mentrau pobl ifanc ac, er bod y niferoedd yn is nag oeddent yn y cyfnod cyn-Covid, mae Trechu Trosedd wedi gallu cefnogi prosiectau yn Queensferry, Bae Colwyn, Wrecsam, Bangor, Bethesda, a Dyffryn Nantlle ymhlith mannau eraill.

Uchafbwynt y flwyddyn oedd Cystadleuaeth Poster Diogelwch Rhyngrwyd Iwyddiannus Ysgolion Cynradd Gogledd Cymru, a dderbyniodd dros 570 o geisiadau. Roeddwn wrth fy modd yn cael y cyfle i fod yn un o'r beirniaid. Gyda nawdd gan Trechu Trosedd, PACT, a CGI, derbyniodd y chwe ysgol fuddugol ar draws gogledd Cymru wobrau ariannol i gefnogi eu gwaith ar ddiogelwch rhyngrwyd, a derbyniodd y disgyblion buddugol wobrau a roddwyd gan fusnesau ar draws y Gogledd. Mae PACT yn anelu at ailadrodd llwyddiant y gystadleuaeth hon eto yn 2022.

Parhaodd cronfa Trechu Trosedd yr Uchel Siryf hefyd â Her Cadetiaid yr Uchel Siryf yn 2022. Lansiwyd yr her am y tro cyntaf yn 2021, ac eleni gwelwyd Cadet Gwirfoddol yr Heddlu Oliver Heath Lloyd-Greenall yn dod yn gyntaf gyda'i gynnig i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Rhiwabon, ac mae'r cynnig bellach yn cael ei ddatblygu i'w roi ar waith ar lawr gwlad gyda'r Tîm Plismona Bro lleol.

Yn 2022 gwelwyd y nawfed flwyddyn o ariannu drwy gynllun 'Eich Cymuned Eich Dewis' gyda 22 o grwpiau llwyddiannus yn derbyn cymorth ariannol. Mae 'Eich Cymuned Eich Dewis' yn parhau i fod yn gronfa hynod boblogaidd ac unwaith eto eleni rhannwyd £60,000 i fentrau cymunedol lleol, gyda'r cyhoedd yn penderfynu trwy bleidlais gyhoeddus pa grwpiau ddylai dderbyn cyllid.

Mae llawer o'r mentrau cymunedol hyn eisoes wedi ymddangos yn y cyfryngau lleol ar ôl i mi ac uwch swyddogion Heddlu Gogledd Cymru ymweld â nhw.

Roedd y prosiectau a gefnogwyd eleni yn cynnwys:


- Prosiect troseddau cyllyll PentrePeryglon
- Youth Shedz gyda phrosiect i addysgu pobl ifanc am Linellau Cyffuriau
- Canolfan Merched Gogledd Cymru
- Adfywio gardd gymunedol yng Nghwm Cadnant ar Ynys Môn
- Clwb ieuenctid LHDT+ Gisda
- Corws Forget-Me-Not yn Abergele yn gweithio gyda rhai sy'n byw gyda dementia
- Clwb Bocsio Bwcle a llawer o rai eraill

Once again 'Your Community Your Choice' was funded equally between my Commissioning Fund and monies recovered from criminals under the Proceeds of Crime Act.

Currently in 2022 PACT are working on a revised and refreshed website; delivering the Justice in a Day programme to secondary schools and Junior Justice to primary schools focussing on the consequences of criminal actions and the impact on our communities. Furthermore, PACT are developing new pieces of work that focus on young victims of sexual abuse and the impact on young people as victims and their families.




HEDDLU
POLICE
CX19 BYS
HEDDLU



# CYNLLUN HEDDLU A THROSEDD

Fy mlaenoriaeth gyntaf yn dilyn fy llwyddiant yn yr etholiad oedd cyhoeddi fy Nghynllun Heddlu a Throsedd. Rhoddais weledigaeth glir ar gyfer gogledd Cymru fwy diogel yn ystod fy ymgyrch etholiadol trwy fy maniffesto. Dyma'r weledigaeth y pleidleisiodd y cyhoedd drosti a dyma'r weledigaeth y byddaf yn parhau i weithio'n galed i'w chyflawni ar ran ein cymunedau. Yn y maniffesto hwnnw nodais fy ymagwedd Gwasanaeth Heddlu sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned (COPS) sydd, yn fy marn i, yn gwasanaethu ein holl gymunedau ar draws y Gogledd yn dda, nid yn unig wrth i ni ddod allan o'r pandemig, ond hefyd wrth i ni edrych ymlaen at y dyfodol.

Blaenoriaethau strategol fy Nghynllun Heddlu a Throsedd yw:

### DARPARU CYMDOGAETHAU MWY DIOGEL

- Mynd i'r afael â throseddau gwledig a bywyd gwyllt a'u hatal
- Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd swyddogion heddlu a staff yr heddlu
- Gwella diogelwch ar y ffyrdd

### CEFNOGI DIODDEFWYR A CHYMUNEDAU

- Mynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol a'i atal
- Diogelu pobl agored i niwed gan gynnwys plant
- Mynd i'r afael â seiberdroseddu a'i atal
- Sefydlu panel dioddefwyr
- Mynd i'r afael â throseddau casineb a'u hatal

### SYSTEM CYFIAWNDER TROSEDDOL TEG AC EFFEITHIOL

- Cyflwyno Strategaeth Cyfiawnder Merched Gogledd Cymru
- Cynyddu'r defnydd o gyfiawnder adferol
- Cefnogi ac amddiffyn plant a phobl ifanc a'u dargyfeirio oddi wrth y system cyfiawnder troseddol
- Mynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu a chefnogi adsefydlu pobl sydd wedi troseddu

Gyda chefnogaeth Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, cytunwyd ar fy Nghynllun a'i gyhoeddi ym mis Medi 2021. Fodd bynnag, ni chytunwyd ar Gynllun Cyflawni'r Prif Gwnstabl ar gyfer yr Heddlu tan fis Ionawr 2022. Yn ystod y cyfnod hwnnw parhawyd i fesur perfformiad yr Heddlu yn erbyn y blaenoriaethau blaenorol ac felly mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn rhoi diweddariad ar gynnydd cyffredinol yn erbyn y blaenoriaethau hynny.

# DARPARU CYMDOGAETHAU MWY DIOGEL

Blaenoriaeth Cynllun Heddlu a Throsedd: **Mynd i'r afael â throseddau gwledig a bywyd gwyllt a'u hatal**

## BETH FYDDAF YN EI WNEUD?

- Cydweithio â'n hundebau ffermio a phartneriaid allweddol i sicrhau plismona effeithiol yn ein cymunedau gwledig.
- Archwilio gyda phartneriaid y potensial o ariannu ymchwil pellach i droseddau fferm a throseddau gwledig eraill, a sut y gallai hyn fod yn gysylltiedig â rhwydweithiau troseddol trefnedig.
- Cefnogi gwaith hanfodol parhaus ein Tîm Troseddau Gwledig ymroddedig.

## CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, rwyf wedi cyhoeddi'n ddiweddar fy mod wedi comisiynu Prifysgol Glyndŵr Wrecsam i gynnal **adolygiad o'r Ddeddf Hela**, yn benodol sut y mae Heddlu Gogledd Cymru yn cadw at y ddeddfwriaeth ac yn ei phlismona. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried barn unigolion sydd o blaid ac yn erbyn hela, Tîm Troseddau Gwledig HGC a rhanddeiliaid allweddol eraill. Disgwylir i ganlyniadau'r adolygiad hwn gael eu cyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn a byddant yn ymddangos yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

**Tîm Troseddau Gwledig** penodol. Mae'r tîm hwn yn parhau i dyfu ac rwyf wedi cymeradwyo buddsoddiad pellach ar ei gyfer. Mae blaenoriaethau presennol y tîm troseddau gwledig yn cynnwys:

- Troseddau fferm ac amaethyddol – gan gynnwys troseddau meddiangar, dwyn offer a cherbydau ffermio, dwyn metel a dwyn tanwydd
- Troseddau da byw – lladrata da byw ac ymosodiadau ar dda byw
- Troseddau ceffylau – lladrad trelars/ bocsys, lladrad ceffylau a thac
- Tipio Anghyfreithlon – cefnogi partneriaid mewn awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru

Mae'r tîm wedi cynnal perthynas gref gyda'n cymunedau gwledig. Mae swyddogion a staff yn gweithio'n agos gyda'r ddau undeb ffermio yng ngogledd Cymru a grwpiau cymunedol eraill.

Mae aflonyddu ar dda byw yn parhau i roi pwysau ar adnoddau troseddau gwledig. O fewn y cyfnod adrodd roedd 102 achos o aflonyddu ar dda byw yng ngogledd Cymru. Lle nodir perchnogion ci, bydd y tîm yn ceisio defnyddio Datrysiad Cymunedol fel canlyniad. Mae hyn yn cynnig canlyniad cadarnhaol i'r dioddefwr mewn ffrâm amser byrrach.

Cafwyd adroddiadau am ddwyn da byw yn ystod y cyfnod hwn. Gall fod yn anodd ymchwilio i'r troseddau hyn oherwydd y cyfnodau hir o gyfleoedd a'r ardaloedd helaeth y gellir dwyn da byw ohonynt. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn gweithio gyda marchnadoedd da byw lleol i rannu rhifau clustnodau defaid yr adroddwyd eu bod wedi'u dwyn.

Mae troseddau fferm ac amaethyddol wedi bod yn gyson yn ystod y cyfnod hwn, er na fu unrhyw gyfresi amlwg o droseddau cysylltiedig. Mae'n anodd adrodd yn gywir ar droseddau fferm ac amaethyddol, ond yn anecdotaidd mae'r Heddlu wedi gweld rhai adroddiadau o ddwyn beiciau cwad a Cherbydau Tir o ffermydd, lladradau tanwydd ac achosion o ddwyn peiriannau. Mae swyddogion wedi cymryd camau rhagweithiol i atal cerbydau rhag cario trelars neu sy'n gallu cludo tanwydd.

Mae'r tîm wedi gwneud gwelliannau sylweddol yn eu perthynas weithio gyda'n partneriaid yng nghyswllt ymchwilio i droseddau bywyd gwyllt, sy'n gweld newid cadarnhaol ar draws y Gogledd. Mae Ymgyrch Elwy, sef ymgyrch casglu gwybodaeth, yn sicrhau bod gwybodaeth am bob trosedd bywyd gwyllt yn cael ei hadolygu a'i rheoli'n briodol. Ers ei sefydlu ym mis Tachwedd 2021 mae Heddlu Gogledd Cymru wedi creu a datblygu 83 o gofnodion gwybodaeth yn gysylltiedig a'r troseddu hyn.

Mae gweithredu i fynd i'r afael â throseddwyr sy'n erlid moch daear wedi arwain at weithred ar sail gwybodaeth gan sicrhau gwarantau i chwilio cyfeiriadau troseddwyr. Ym mis Tachwedd 2021, yn dilyn gwybodaeth a dderbyniwyd gan y Cynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon (League Against Cruel Sports), cafodd Heddlu Gogledd Cymru warant i chwilio fferm ym Mlaenau Ffestiniog lle cafwyd bod unigolyn a gafodd euogfarn am hela moch daear yn torri gorchymyn llys yn ei wahardd rhag cadw cŵn. Atafaelwyd 36 o gŵn yn ystod yr ymgyrch hon a chynhaliwyd ymchwiliad ar y cyd â'r RSPCA. Mae'r tîm wedi gweithredu pedair gwarant chwilio arall ar draws yr heddlu mewn perthynas ag erledigaeth moch daear sydd wedi gweld dros 50 o gŵn yn cael eu hatafaelu gan yr heddlu a'u rhoi yng ngofal yr RSPCA.

Mae erlid adar ysglyfaethus yn cynnwys gwenwyno, saethu, trapio, a dinistrio nythod neu aflonyddu ar yr adar. Mae ymchwiliadau i droseddau o'r fath wedi gweld peth newid cadarnhaol yng ngogledd Cymru. Mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, sefydlwyd swyddog ymchwilio cyntaf Cymru, wedi'i leoli yng Nghonwy. Mae'r Heddlu yn parhau i dderbyn adroddiadau am erlid adar ysglyfaethus ar draws yr ardal, gan gynnwys gwenwyno bwriadol a saethu adar ysglyfaethus.



Cynhelir trafodaethau partneriaeth aml yn awr lle gellir rhannu gwybodaeth gyda'r heddlu i gynorthwyo'r ymchwiliad. Mae hyn wedi gweld dau chwiliad cadarnhaol ar ystadau saethu helwriaeth lle canfuwyd troseddau gynnau a bod ym meddiant gwenwyn. Yr achos mwyaf nodedig oedd malu nyth gweilch y pysgod yn Llyn Brenig. Mae'r tîm wedi gweithio'n agos gydag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a Dŵr Cymru i sicrhau bod y safle'n fwy diogel ar gyfer y tymor hwn. Mae hyn wedi'i reoli trwy gynllun Plismona sy'n Canolbwyntio ar Broblemau (POP) ac mae 50 o wirfoddolwyr wedi'u recriwtio i fonitro a diogelu'r safle. Mae'n dda gallu adrodd bod y gweilch y pysgod wedi dychwelyd bellach a gobeithio y bydd y tymor magu yn un llwyddiannus.

Tra bod troseddau amgylcheddol fel tipio anghyfreithlon yn gyfrifoldeb awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru, maent yn cael effaith andwyol ar gymunedau gwledig. Bydd Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i gefnogi



awdurdodau lleol yn eu hymchwiliadau i dipio anghyfreithlon. Yn ystod y cyfnod adrodd bu dau ymchwiliad cadarnhaol yn ardal Conwy, gyda thipwyr anghyfreithlon yn cael eu hadnabod. Mae yna droseddau amgylcheddol ehangach na thipio anghyfreithlon ac rydym wedi gweld ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru, mae unigolion sy'n hysbys i'r Heddlu sy'n ymwneud â throseddau trefnedig hefyd yn ymwneud â dwyn a gwerthu metelau.



## Blaenoriaeth Cynllun Heddlu a Throsedd: **Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd swyddogion heddlu a staff heddlu**

### BETH FYDDAF YN EI WNEUD?

- Dros fy nhymor tair blynedd yn y swydd, cynyddu nifer swyddogion a staff yr heddlu
- Darparu atebion technoleg i gefnogi ein timau i frwydro yn erbyn trosedd a diogelu ein cymunedau
- Rhoi'r offer a'r offer digidol i'n gweithlu i weithio'n effeithiol

### CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

- Mae'r Heddlu wedi cyrraedd targedau Ymgyrch Uplift (cynllun Llywodraeth y DU i recriwtio 20,000 o swyddogion heddlu newydd) ar gyfer Blwyddyn Dau ac rwyf wedi fy sicrhau bod cynllun yn ei le ar gyfer Blwyddyn Tri yn ogystal â chyflawni'r holl gynnydd mewn staffio y gofynnwyd amdano yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Adolygodd yr Heddlu'r broses ddyrchafiadau, rhoi newidiadau ar waith cyn rhedeg proses ddyrchafiad ar gyfer pob rheng gan gynnwys proses ddethol ar gyfer Prif Gwnstabl Cynorthwyol newydd.
- Cyllidwyd Fan Symudol yr Heddlu yn rhannol gennyf fel Comisiynydd er mwyn gwella ymgysylltiad HGC â'n cymunedau gwledig.
- Cafwyd datblygiad sylweddol yn y data a ddefnyddir gan yr Heddlu ar gyfer cynllunio gweithlu.
- Cyflwynwyd brechiadau ffliw yn llwyddiannus.
- Datblygwyd y cynnig llesiant ymhellach. Mae'r Heddlu bellach wedi datblygu 71% yn llawn yn erbyn y Safon Golau Glas.
- Lansiwyd rhaglen PALS (Set Dysgu Gweithredol Proffesiynol) yn swyddogol, sef rhaglen gyntaf yr Heddlu i gefnogi datblygiad ein cydweithwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.



- Mae cyfleuster hyfforddi newydd yn Llanelwy wedi agor yn swyddogol ac yn weithredol.
- Parhawyd i ddarparu rhaglen hyfforddi gymhleth er gwaethaf heriau Covid.
- Cafwyd sicrwydd sylweddol yn dilyn archwiliadau mewnol o Gynllunio Gweithlu Strategol ac Archwiliad Strategaeth Adnoddau Dynol yr Heddlu a chafwyd sicrwydd rhesymol yn dilyn archwiliad o'r Uned Iechyd Galwedigaethol.

Mae **Tîm Cynrychioli'r Gweithlu** wedi bod yn gweithredu ers mis Ionawr 2020 i gefnogi'r Heddlu i gyflawni gweithlu amrywiol a chynrychioliadol. Yn ystod y 12 mis diwethaf maent wedi ehangu eu cylch gorchwyl i gynnwys cynnig cymorth gweithredu cadarnhaol i ymgeiswyr o bob grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol ar gyfer rolau swyddogion a staff. Mae hyn yn cynnwys ymgeiswyr allanol a mewnol am swyddi a'r holl brosesau dyrchafu, gan weithio'n agos gyda'n Hadran Pobl a Datblygiad Sefydliadol.

Mae nifer o fentrau wedi'u rhoi ar waith i gefnogi rhai grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Er enghraifft, mae asesiad meddygol blynyddol pwrpasol ar gyfer yr holl swyddogion a staff Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wedi'i gyflwyno.

Mae'r Heddlu wedi partneru â Heddlu De Cymru i alluogi swyddogion a staff o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i gymryd rhan yn y cynllun PALS:

- Adnabod, cadw a datblygu swyddogion a staff Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sydd â'r potensial i lwyddo o fewn Heddlu Gogledd Cymru.
- Galluogi cyfranogwyr i greu cynllun datblygu.
- Cynyddu hunanymwybyddiaeth a hunanhyder.
- Dangos hyder i herio a rheoli i fyny.
- Datblygu arddull arwain sy'n ymgorffori gwerthoedd sefydliadol.
- Cydnabod effaith gwerthoedd personol.
- Cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar gyfleoedd rhwydweithio.
- Ennill sgiliau ar gyfer gwneud cais a chael cyfweliad.

Mae amrywiaeth o wahanol ddulliau denu ac ymgysylltu wedi cael eu defnyddio fel rhan o recriwtio Operation Uplift sy'n cynnwys hysbysfyrddau digidol, faniau hysbysebu, hysbysebion wedi'u targedu ar Facebook a thaflenni trwy'r post yn ogystal â digwyddiadau wyneb yn wyneb ac ar-lein.

Yn ddiweddar, recriwtiodd yr Heddlu ei heddwas benywaidd du cyntaf, sy'n amlwg yn garreg filltir hir-ddisgwyliedig, ond i'w chroesawu'n fawr.

Crëwyd rôl gwirfoddolwr newydd ar gyfer Cyswllt Mosg sydd eisoes wedi dechrau cryfhau ymhellach ein perthynas â chymunedau mosg ar draws ardal gogledd Cymru.



Blaenoriaeth Cynllun Heddlu a Throsedd: **Gwella diogelwch ffyrdd**

## BETH FYDDAF YN EI WNEUD?

- Cefnogi gorfodi ar gyfer gyrru'n beryglus ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth rhanbarthol i sicrhau bod unrhyw un sy'n gyrru drwy ein hardal yn deall na fydd gyrru peryglus neu ddiofal yn cael ei oddef.
- Gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a holl awdurdodau lleol gogledd Cymru, i sicrhau diogelwch ar y ffyrdd. Parhau i roi blaenoriaeth i hyn ar draws y rhanbarth, a bod unrhyw brosiectau adfywio yn ystyried yr angen i gadw holl ddefnyddwyr y ffyrdd yn ddiogel.
- Gweithio gyda chymunedau lleol a chynghorwyr i adnabod a mynd i'r afael â mannau lle ceir problemau goryrru er mwyn gwneud ein strydoedd yn fwy diogel.
- Targedu troseddwyr a grwpiau troseddau trefnedig sy'n defnyddio ein ffyrdd er mwyn eu hatal rhag defnyddio'r ffyrdd, amharu ar eu gweithgareddau a diogelu ein cymunedau.
- Gweithio gyda'r Prif Gwnstabl i gynyddu'r defnydd o Adnabod Rhifau Ceir yn Awtomatig (ANPR) sy'n arf effeithiol wrth fynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnedig.

## CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

- Mae lefel y profion cyffuriau positif bellach yn gweld tuedd ar i lawr o fewn y rhanbarth, gyda ffigurau 2021 yn dangos gostyngiad o 27.6% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae ffigurau diweddar yn 2022 yn parhau i weld y gostyngiadau hynny.
- Ym mis Mawrth 2022, atafaelodd y **Tîm Rhwystro** dros 100 pecyn o gyffuriau Dosbarth A, 40 bag o ganabis, dros £5,000 mewn arian parod, a gwnaed 16 arest am nifer o droseddau. Bellach mae gan ardaloedd Plismona Lleol un pwynt cyswllt sy'n rheoli'r bobl hynny sy'n achosi'r galw, bygythiad, y risg a'r niwed mwyaf i'r cyhoedd.
- Mae'r pandemig wedi arwain at newid mewn arferion teithio gyda mwy o bobl yn dewis aros yn y DU ac ymweld â gogledd Cymru unwaith y cafodd y cyfyngiadau teithio eu llacio, gan gynyddu twristiaeth a thraffig cerbydau.
- Mae'r nifer isel o wrthdrawiadau cerbydau a welwyd yn ystod cyfnodau clo y pandemig yn rhoi canfyddiad o ffigurau uwch o achosion o bobl a Laddwyd ac Anafwyd yn Ddifrifol. Er gwaethaf cynnydd a welwyd yn ystod 2022 mae'r ffigurau Lladdwyd ac Anafwyd yn Ddifrifol ar hyn o bryd 12.5% yn is o'u cymharu â chyfnod 'nodweddiadol' cyn y pandemig.
- Mae Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i fynd i'r afael â'r 'Pump Angheuol' (gyrru diofal, yfed a gyrru a gyrru dan ddylanwad cyffuriau, peidio â gwisgo gwregys diogelwch, gyrru'n rhy gyflym a thynnu sylw, gan gynnwys defnyddio ffonau symudol), gan ddefnyddio gwybodaeth a gweithredu wedi'i arwain gan wybodaeth yn unol â'r tueddiadau a welwyd mewn gwrthdrawiadau mwy difrifol ac angheuol. Mae nifer o weithrediadau penodol sy'n gysylltiedig â diogelwch ffyrdd yn parhau i ddigwydd, megis Ymgyrch Darwen sy'n mynd i'r afael â gwrthdrawiadau beiciau modur mewn ardaloedd trefol a gwledig a gweithrediadau ar y cyd â rhai o'n partneriaid.

- Mae'r Uned Plismona Ffyrdd yn parhau i weithio'n agos gyda'i phartneriaid ac wedi ceisio mabwysiadu mesurau mwy arloesol trwy ddefnyddio technoleg i wella diogelwch ar y ffyrdd. Mae hyn yn ychwanegol at y nifer o fesurau peirianneg sydd eisoes wedi'u cyflwyno drwy weithio'n agos gyda phartneriaid i adnabod meysydd sy'n peri problemau.
- Mae Stori Olivia yn ffilm bwerus ac emosiynol sy'n amlygu canlyniadau ofnadwy gyrru peryglus gan yrwyr ifanc sydd newydd basio. Bydd y ffilm yn cael ei chyflwyno ar draws ysgolion yng Nghymru wedi'i hanelu at yrwyr ifanc.
- Asesiad beiciwr BikeSafe ar gyfer beicwyr modur sy'n dewis gyrru beic modur yn y rhanbarth gyda'r nod o addysgu defnyddwyr y ffyrdd a dylanwadu ar ymddygiad.
- Mae pryderon ynghylch diogelwch ar y ffyrdd yn cael eu codi'n aml gan aelodau'r cyhoedd yn ystod ymgynghoriadau a chyfarfodydd cyhoeddus. Mae fy Nghynllun Heddlu a Throsedd yn amlinellu sut y byddaf yn gweithio gyda chymunedau lleol a Chynghorwyr i wneud ein strydoedd yn fwy diogel. Er mwyn cyflawni'r flaenoriaeth hon, byddaf yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus i adnabod meysydd problemus sy'n peri pryder, ac yn gweithio gyda chynghorau tref a chymuned lleol i roi mesurau ar waith i leihau goryrru a gyrru gwrthgymdeithasol yn yr ardaloedd hynny. Byddaf yn cynorthwyo i leihau goryrru drwy sefydlu cynlluniau gwarchod cyflymder cymunedol mewn ardaloedd sy'n peri pryder i ganiatáu i'r gymuned fod yn rhan o wneud y ffyrdd yn eu hardal yn fwy diogel.
- Ym mis Gorffennaf 2021 dechreuodd Llywodraeth Cymru gynllun peilot mewn wyth ardal yng Nghymru lle cafodd y terfyn cyflymder ei ostwng o 30mya i 20mya. Un o'r ardaloedd peilot oedd Bwcle yn Sir y Fflint. Roedd canfyddiadau cychwynnol agwedd y cyhoedd tuag at ostwng y terfyn cyflymder yn gadarnhaol iawn gyda thua 92% yn cytuno â'r newid. Amcangyfrifir bod tua 50% o anafiadau ffyrdd yn digwydd ar ffyrdd 30mya a fyddai'n sylweddol is pe bai'r terfyn cyflymder yn cael ei ostwng.
- Mae cynnydd yn rhwydwaith camerâu Adnabod Rhifau Cerbydau (ANPR) ar draws y Gogledd wedi bod o gymorth mawr i'r Heddlu wrth atal troseddwyr rhag defnyddio'r ffyrdd. Cymeradwyais yn bersonol yr ehangiad hwn sydd wedi cyfyngu defnydd troseddwyr o ffyrdd gwledig heb gael ei ganfod.
- Mae'r defnydd o feiciau oddi ar y ffordd a defnydd anghyfreithlon o e-feiciau ac e-sgwteri yn rhywbeth rwyf yn ei adolygu ar hyn o bryd. Byddaf yn gweithio gyda'r partneriaethau Diogelwch Cymunedol er mwyn ceisio canfod arfer gorau wrth fynd i'r afael â'r math hwn o ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Llwyddodd Cyngor Sir Ddinbych mewn cais i Lywodraeth Cymru am gamerâu monitro cerbydau byw. Bydd yr offer yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gweithrediadau plismona trwy ddefnyddio dull a arweinir gan wybodaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:
  - Lleoli swyddogion yn well i ardaloedd lle mae tystiolaeth amser real o oryrru, dosbarth a maint cerbydau.
  - Lleihau'r galw am wasanaethau brys
  - Gwella gwelededd
  - Ymagwedd wedi ei arwain gan wybodaeth wrth orfodi gweithrediadau penodol h.y. Ymgyrch Darwen (beiciau modur)
  - Gweithio mewn partneriaeth ar y cyd â Chyngor Sir Ddinbych, yn ogystal â buddion awdurdodau lleol.


Gorsaf
Heddlu
Police
Station

# CEFNOGI DIODDEFWYR A CHYMUNEDAU

Blaenoriaeth Cynllun Heddlu a Throsedd: **Mynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol a'i atal**

## BETH FYDDAF YN EI WNEUD?

- Sicrhau bod y Strategaeth Agored i Niwed a Chamfanteisio yn cael ei rhoi ar waith a chanolbwyntio ar gamau gweithredu fel addysg perthnasoedd iach, mynd i'r afael â'r gostyngiad mewn cyfraddau collfarnu treisio, a hyfforddiant i staff rheng flaen i ymateb yn well i ddatgeliadau o gam-drin.
- Gwella ein hymwybyddiaeth a'n hymateb i ddioddefwyr stelcian ac aflonyddu.
- Gan weithio gyda phartneriaid yn y system cyfiawnder troseddol, sicrhau bod dioddefwyr Cam-drin Domestig yn cael eu cefnogi drwy'r system gyfan, gan gynnwys defnyddio safleoedd tystiolaeth o bell ar gyfer dioddefwyr bregus.
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddiogelu goroeswyr cam-drin domestig a darparu ystod o ymyriadau aml-asiantaeth.
- Sicrhau bod y lleiafrif o ddioddefwyr sy'n ddynion sy'n dioddef o'r troseddau hyn yn cael eu cefnogi'n gyfartal.
- Sicrhau bod mecanweithiau yn eu lle i asesu risg, dyrannu'r adnoddau priodol ar bob cam a chynnal yr ymchwiliadau gorau posibl.
- Sicrhau bod gan ein staff y ddealltwriaeth i adnabod arwyddion Cam-drin Domestig yn ei holl ffurfiau.
- Cynyddu hyder pob sector o'r gymuned i adrodd am Gam-drin Domestig.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddiogelu dioddefwyr cam-drin rhywiol a darparu ystod o ymyriadau aml-asiantaeth.
- Gweithio gyda phartneriaid ar gyflwyno cynlluniau gweithredu ar y cyd i sicrhau gwasanaeth o safon i bob dioddefwr.
- Targedu cyflawnwyr pob math o gam-drin rhywiol a dod â hwynt o flaen eu gwell.

## LLWYDDIANNAU ALLWEDDOL

Mae'r data ar natur a chyffredinolrwydd Trais yn Erbyn Merched (VAWG) yng Nghymru a Lloegr yn brin ac yn frawychus, gyda llawer o droseddau byth yn dod i sylw'r heddlu. Mae rhai troseddau yn effeithio'n anghymesur ar ferched, gan amlygu eu hunain mewn gwahanol ffyrdd, ac yn mynnu atebion wedi'u targedu. Mae troseddau fel treisio, anffurfio organau cenhedlu merched, stelcian, aflonyddu, a throseddau digidol megis seibr-fflachio, 'porns dial' ac 'up-skirting' yn digwydd bob dydd ac ni ddylent gael ei goddef o gwbl gan ein cymdeithas. Maent yn darlunio agweddau gwarthus, hen ffasiwn yn aml, a rhagfarn tuag at ferched.

Arweiniodd herwgipio, treisio a llofruddiaeth erchyll Sarah Everard gan heddwas ym mis Mawrth 2021 at ferched ledled y wlad yn siarad am eu profiadau eu hunain o drais a cham-drin, ac yn gwbl briodol mynnu newid. Mae marwolaethau trasig merched eraill fel Bibaa Henry a Nicole Smallman, Julia James, Gracie Spinks, Sabina Nessa a Bobbi-Anne McLeod, wedi cadw mater Trais yn Erbyn Merched yn ymwybyddiaeth y cyhoedd.

Mae gan swyddogion yr heddlu gyfrifoldeb a phwerau unigryw i leihau'r niwed hwn drwy atal troseddau, ymchwilio i droseddau, mynd ar ôl cyflawnwyr a dod â nhw o flaen eu gwell, amddiffyn merched, rheoli troseddwyr a helpu i wneud ein strydoedd yn fwy diogel.

Ym mis Medi 2021 daeth arolygiad gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) i'r casgliad bod gwelliannau mewn perthynas â Thrais yn Erbyn Merched yn digwydd ond nad oeddent yn ddigon ac argymhellwyd newid sylfaenol mewn blaenoriaethu gyda'r nod o sicrhau mwy o gysondeb a safonau uwch yn gyffredinol.

Mewn ymateb, ym mis Rhagfyr 2021 lansiodd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (NPCC) Fframwaith Cyflawni newydd i ddelio a Thrais yn Erbyn Merched, gan amlinellu rhaglen tair blynedd gyda ffocws ym Mlwyddyn Un ar feysydd y gall plismona helpu i'w gwella ar unwaith, gyda Blynyddoedd Dau a Thri yn canolbwyntio ar y gymuned ehangach a'r dulliau partneriaeth sydd eu hangen i gyflawni newid cynaliadwy. Mae'r Fframwaith yn adlewyrchu bod yn rhaid i Trais yn Erbyn Merched fod yn flaenoriaeth strategol i bob heddlu gyda chamau penderfynol i gyflawni safon, diwylliant ac ymagwedd gyffredin wrth atal ac ymateb i Trais yn Erbyn Merched.




Mae'r Cynllun Gweithredu Trais yn Erbyn Merched wedi'i drefnu o dan dair Colofn:

1) Adeiladu Ymddiriedaeth a Hyder

2) Ymlid Cyflawnwr Parhaus

3) Mannau Mwy Diogel

Yn lleol, mewn ymagwedd debyg i ymdrin â Covid-19, mae Heddlu Gogledd Cymru wedi datblygu ymagwedd o Ymgysylltu, Addysgu a Gorfodi, sy'n rhoi trosolwg o'r hyn a ddisgwylir gan swyddogion dros y flwyddyn/blynyddoedd i ddod. Mae'r ymagwedd yn dangos yn glir bod mynd i'r afael â Thrais yn Erbyn Merched yn fater ar draws yr Heddlu a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob adran a phartner gydweithio'n effeithiol, ac yn gydweithredol, yn enwedig gyda meysydd gwaith datblygedig eraill fel Cam-drin Domestig a Throseddau Rhywiol.

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

## Trais yn erbyn Menywod a Merched – Yr ymagwedd triphlyg

| YMGYSYLLTU... | ADDYSGU... | GORFODI... |
|---|---|---|
| Dioddefwyr, Goroeswyr a Grwpiau Cefnogi (yn enwedig ar gyfer merched lleiafrifol), a gwrando'n ofalus ar eu hanghenion/profiadau, eu deall ac ymateb iddynt. | Swyddogion a gweithwyr proffesiynol eraill i nodi symptomau cam-drin, bod yn chwilfrydig ("Gofyn a Gweithredu"), a mabwysiadu dulliau gweithredu sy'n ymwybodol o drawma. | Gweithio mewn partneriaeth i adnabod, rheoli a dwyn troseddwyr o flaen eu gwell, gan ganolbwyntio ar y rhai sy'n achosi'r niwed mwyaf. |
| Partneriaid yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector sydd â rhan bwysig i'w chwarae mewn camau ataliol hirdymor, rhannu gwybodaeth a llwybrau atgyfeirio integredig. | Plant a phobl ifanc ar yr hyn sy'n gyfystyr â gwella perthynas iach (Ysgol, Coleg, Prifysgol). | Gwella ymateb, safon ymchwilio, argaeledd staff arbenigol, goruchwyliaeth a chanlyniadau ar gyfer pob trosedd sy'n ymwneud â Thrais yn Erbyn Merched. |
| Ysgolion, Colegau a Phrifysgolion i ddeall eu hymateb presennol i Drais yn Erbyn Merched, yn enwedig aflonyddu a cham-drin rhywiol. | Cymunedau lleol ar ymddygiad derbyniol a'r cymorth a chefnogaeth sydd ar gael iddynt ("Stryd Ddiogel", "Byw Heb Ofn") trwy ymgyrchoedd cyfathrebu lleol/cenedlaethol. | Hyrwyddo'r safonau uchaf o ymddygiad, proffesiynoldeb ac uniondeb pob swyddog, ac ymateb yn gadarn i'r rhai sy'n disgyn islaw'r safonau hynny. |
| Cwmnïau trafnidiaeth gyhoeddus leol ar fentrau i wneud teithio'n fwy diogel i ferched. | Swyddogion i weithio gydag Awdurdodau Lleol i gael mynediad at Gyllid Strydoedd Mwy Diogel. | Ei gwneud yn haws i ddioddefwyr adrodd am drosedd a'u cefnogi trwy gydol y broses (Cod y Dioddefwyr). |
| Deiliaid trwydded a staff, yn eu cefnogi i dargedu lleoliadau risg uchel, niwed uchel gyda mentrau Economi Gyda'r Nos ("Spiking"). | Dynion a bechgyn wrth herio pob math o drais yn erbyn menywod a merched. | Gwneud defnydd llawn o ddeddfwriaeth gyfredol gan gynnwys defnydd effeithiol o orchmynion amddiffyn megis Hysbysiadau Amddiffyn Trais (DVPN) yn y Cartref a Gorchmynion Amddiffyn rhag Llercian (SPO). |

gwneud Gogledd Cymru'r lle **mwyaf diogel** yn y DU    making North Wales the **safest** place in the UK

Ar 31 Mawrth 2022 , cyflwynodd Heddlu Gogledd Cymru eu Cynllun Gweithredu Trais yn Erbyn Merched i'r NPCC. Mae'r Heddlu eisoes ar y trywydd iawn gyda llawer o enghreifftiau o arfer da wedi'u nodi, ond mae bylchau a gofyniad i symud ein ffocws a dwysau a blaenoriaethu meysydd gwaith eraill. Fel CHTh byddaf yn parhau i fonitro gweithrediad y cynllun gweithredu hwn drwy fy Mwrdd Gweithredol Strategol.

Ers mis Mawrth 2021 mae rhai cyflawniadau allweddol i'w nodi fel a ganlyn:

- Arolwg ar-lein "Llais yn Erbyn Trais" sy'n galluogi aelodau'r cyhoedd i rannu eu barn, eu pryderon a'u profiadau.
- Derbyniodd arolwg mewnol "Aflonyddu Rhywiol" 602 o ymatebion, yn adnabod gwaith pellach i herio diwylliant ac ymddygiad.
- Sicrhaodd cais am arian, a arweiniwyd gan fy swyddfa £336,000 ar gyfer "Strydoedd Mwy Diogel Wrecsam" yn canolbwyntio ar ddiogelwch mannau cyhoeddus a chreu dwy ffilm addysgiadol i bobl ifanc.
- Sefydlu Grŵp Aur Trais yn Erbyn Merched gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn arwain ymateb strategol yr Heddlu i Dasglu Trais yn Erbyn Merched yr NPCC.
- Sefydlu Grŵp Tactegol Trais yn Erbyn Merched yn canolbwyntio ar ofynion gweithredol y cynllun gweithredu.
- Sefydlu cynllun cyfathrebu mewnol/allanol newydd.
- Cael ei henwi yn wasanaeth heddlu enghreifftiol wrth ddelio â Thrais yn Erbyn Merched a derbyn £60,000 gan y Swyddfa Gartref i ddatblygu'r mentrau canlynol:

- Gweithrediad economi nos y Rhyl.
- Dynladdiad domestig, Karma Nirvana a hyfforddiant Gorchmynion Sifil.
- Hyfforddiant/addysg troseddau rhywiol ar gyfer grŵp oedran 16+ mewn cydweithrediad â Chanolfan Gefnogi Trais a Cham-drin Rhywiol (RASASC) Gogledd Cymru.
- Stribedi profi sbeicio.
- Hyfforddiant economi gyda'r nos i staff parciau gwyliau.
- Diwrnod effaith Trais yn Erbyn Merched yn targedu'r rhai sy'n euog o droseddau Trais yn Erbyn Merched.

Mae'r meysydd a nodwyd fel blaenoriaeth ar gyfer 2022/23 fel a ganlyn:

- Aflonyddu ar y stryd.
- Troseddau ac ymchwiliadau digidol ar-lein.
- Addysg.
- Cefnogi dioddefwyr drwy'r broses cyfiawnder troseddol.
- Cynnwys merched ym mhob cam o'r gwasanaeth a ddarperir, yn enwedig rhai o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.
- Sicrhau bod digon o staff arbenigol/adnoddau i ymdrin â throseddau Trais yn Erbyn Merched.
- Cynyddu defnydd effeithiol o offer rhagweithiol ac ataliol megis Gorchmynion Sifil.
- Creu "Proffiliau Problem" Trais yn Erbyn Merched ar gyfer pob maes ar draws yr heddlu a mynd i'r afael â materion a nodwyd.

Er bod y cynllun gweithredu hwn, yn gwbl briodol, yn canolbwyntio ar ferched (oherwydd y nifer anghymesur o ddigwyddiadau yn eu herbyn), mae llawer mwy y gallwn ei wneud i gefnogi dynion a bechgyn ar draws nifer o feysydd, gan gynnwys eu diogelwch, fel sy'n cael ei gydnabod yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd.

ADAPT (Asiantaethau Tasgio Cyflawnwr Cam-drin Domestig)

Mae ADAPT yn ddull aml-asiantaeth o ymdrin â'r rhai sy'n cyflawni cam-drin domestig. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cadeirio panel aml-asiantaeth unwaith y mis i drafod carfan o rhai sy'n cyflawni cam-drin domestig o bob un o'r chwe awdurdod lleol, er mwyn bodloni amcanion diogelu cyffredinol

1. **Lleihau aildroseddu gan gyflawnwyr cam-drin domestig.**
2. **Diogelu oedolion a phlant sydd mewn perygl o gam-drin domestig.**
3. **Torri'r cylch o gam-drin y cyflawnwr.**

Y dull allweddol o gyflawni'r nod hwn yw newid neu amharu ar ymddygiad troseddwyr. Ym mis Ionawr 2022 mabwysiadwyd y dull hwn ar draws gogledd Cymru gyfan yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus yng Nghonwy a Sir Ddinbych.

Dim ond yn ddiweddar y cyflwynwyd y rhaglen hon ac felly ni ellir asesu data perfformiad. Fodd bynnag, adolygwyd yr ardal beilot yn ddiweddar a amlygodd ganlyniadau addawol, dangosodd 88% o'r cyflawnwyr y bu'r rhaglen yn gweithio gyda hwynt ostyngiad yn y risg gyffredinol yr oeddent yn ei beri yn seiliedig ar y sgôr a ddarparwyd gan Ddifrifoldeb Amlder Diweddar (RFG), matrics risg a ddefnyddir i adnabod cyflawnwyr cam-drin domestig problemus.

Mi wnaeth dros hanner y cyflawnwyr a ryddhawyd o'r rhaglen ymatal rhag cyflawni unrhyw droseddau cam-drin domestig pellach. Cafodd y rhai a gyflawnodd droseddau pellach eu hadnabod fel rhai nad oeddent yn cymryd rhan yn y rhaglen ac, er gwaethaf y tactegau a ddefnyddiwyd, byddent yn parhau i droseddu yn ystod eu hamser gydag ADAPT. Wrth symud ymlaen bydd y data a gofnodir yn dangos cyfanswm y troseddwyr a reolir ym mhob ardal. Bydd y tîm hefyd yn cofnodi sgôr risg a phatrwm troseddu'r cyflawnwyr a ryddhawyd o'r rhaglen.

Er mai megis dechrau y mae'r rhaglen, mae cydweithrediad ac ymrwymiad

yr holl asiantaethau i weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus ar draws y Gogledd yn uchafbwynt ynddo'i hun. Sylweddolir bod galwadau sylweddol ar staffio gan bob asiantaeth, fodd bynnag, ond nodwyd yn unfrydol bod hwn yn brosiect teilwng sydd â manteision i atal niwed i ddioddefwyr cam-drin domestig.

Y ffocws ar gyfer y 12 mis nesaf fydd cydgrynhoi a hyrwyddo'r rhaglen, o fewn pob asiantaeth, a pharhau i wella effeithlonrwydd wrth weithio gyda'r cyflawnwyr neu amharu ar eu hymddygiad troseddol.

Mae'r Heddlu yn sicrhau bod staff yn gallu gweithio'n effeithiol ochr yn ochr ag asiantaethau partner i ddiogelu dioddefwyr yn effeithiol, cynnal ymchwiliadau proffesiynol a gwella ein hymagwedd tuag at erlyniadau a arweinir gan dystiolaeth. Mae ffocws yn cael ei roi ar ddefnydd mwy cadarn o bwerau'r heddlu i reoli achosion cam-drin domestig, gan gynnwys y defnydd o **Hysbysiadau Diogelu Trais Domestig**, mechnïaeth amodol, a gorchmynion sifil i amddiffyn pobl agored i niwed ac amharu ar gyflawnwyr.

Mae **Materion Cam-drin Domestig** yn cael eu darparu ar draws yr Heddlu i ddatblygu dealltwriaeth swyddogion o gam-drin domestig a'i effaith ar ddioddefwyr. Mae swyddogion yn cael eu diweddaru drwy amrywiaeth o gyfryngau gan gynnwys sesiynau 'Cnoi Cil' ar-lein, a bwletinau 'Angen Gwybod' er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o newidiadau deddfwriaethol ac arfer gorau sy'n deillio o'r newidiadau sydd ar droed i Ddeddf Cam-drin Domestig 2021.

Mae adroddiadau o gam-drin domestig yn parhau i godi yn dilyn tuedd ffigurau ar ôl y pandemig. Mewn ymateb, fodd bynnag, mae cynnydd hefyd mewn cyfraddau canlyniadau cadarnhaol 1-8 ar draws yr Heddlu a chynnydd mewn mechnïaeth amodol a ddefnyddir mewn achosion o gam-drin domestig. Mae hyn wedi gweld cynnydd yn yr achosion sy'n cael eu hatgyfeirio i Gynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth (MARAC), er bod y rhan fwyaf yn cael eu rheoli drwy'r fforymau wythnosol gan leihau'r galw MARAC misol.

Mae'r Ditectif Gwnstabl Mike Taggart yn parhau i hyrwyddo ymwybyddiaeth strategol o gam-drin domestig ar draws y rhanbarth, ac yn ddiweddar cyflwynodd y fenter 'Making the Cut' yng ngwobrau Plismona sy'n Canolbwyntio ar Broblemau'r Heddlu gan ddarparu hyfforddiant arloesol i'r sector harddwch i ehangu cyrhaeddiad diogelu dioddefwyr i'r trydydd sector.

Dechreuodd Llysoedd Cam-drin Domestig yng ngogledd Cymru ar 1 Mai 2022 , a bydd hyn yn lleihau'r amser y mae cyflawnwyr cam-drin domestig ar fechnïaeth cyn iddynt ymddangos gerbron llys. Mae hyn yn sicrhau mai'r dioddefwr sydd wrth galon ymchwiliadau cam-drin domestig.

Yn dilyn ymgynghoriad gan Wasanaeth Erlyn y Goron, rhoddwyd proses newydd ar waith sy'n galluogi manylion Cynghorydd Annibynnol Trais yn y Cartref (IDVA) gael eu rhannu ag erlynwyr i sicrhau bod cymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu i ddioddefwyr yn ystod y broses cyfiawnder troseddol.

Mae gan Heddlu Gogledd Cymru gynrychiolaeth ar y gweithgor tagu cenedlaethol a bydd ganddo lais cryf wrth weithredu deddfwriaeth newyddyng nghyswllt tagu nad yw'n angheuol.

Mae Karma Nirvana wedi bod yn gweithio o fewn yr Heddlu i ddarparu hyfforddiant trais ar sail anrhydedd a drefnwyd trwy gyllid Trais yn Erbyn Merched er mwyn hyfforddi swyddogion arbenigol ym maes plismona lleol.

Mae'r fforwm Gwasanaethau Cynghori Goroeswyr yn parhau, gan ganiatáu i ddioddefwyr a goroeswyr roi adborth ar eu profiadau i asiantaethau perthnasol er mwyn adnabod yr hyn a ddysgwyd.

Bydd Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar ymagwedd a arweinir gan dystiolaeth at ymchwiliadau ac yn ceisio cynyddu eu defnydd o orchmynion atal, a rheolaeth yr Heddlu o'r gorchmynion hynny. Bydd y ffocws ar hyrwyddo adnabyddiaeth o droseddau ymddygiad rheoli a gorfodi ac yn datblygu sgiliau i ymchwilio i'r troseddau hyn.

Mae staffio Swyddogion Cam-drin Domestig Arbenigol (DAO) wedi bod yn her dros yr ychydig fisoedd diwethaf gyda chyfeiriadau yn parhau i fod yn uchel. Mae adolygiad parhaus o broffil swydd Swyddog Cam-Drin Domestig Arbenigol i ganfod lle gellir gwneud newidiadau i wella effeithlonrwydd o fewn yr adran.

Bydd swydd weinyddol MARAC ychwanegol dros dro yn y swyddfa ganolog yn helpu gyda'r galw parhaus hwnnw.

## AMETHYST

Mae adran Amethyst yn dîm o swyddogion ymroddedig sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig yn y gwaith o ymchwilio i droseddau treisio ledled gogledd Cymru. Mae gan yr adran swyddogion wedi'u lleoli mewn tri safle daearyddol ar draws ardal yr Heddlu ac mae'n gymysgedd o Dditectifs a Swyddogion Cyswllt Troseddau Rhywiol sydd â'r dasg o ymgysylltu â dioddefwyr a chael tystiolaeth ganddynt ar adeg a all fod yn gyfnod dinistriol yn eu bywydau.

Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda nifer o asiantaethau i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i ddioddefwyr ac i wneud mynediad i'r broses cyfiawnder troseddol mor syml ac effeithlon â phosibl. Mae gogledd Cymru yn hynod ffodus i gael Canolfan Gyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) bwrpasol. Mae'r Ganolfan wedi'i staffio gan staff y GIG a hefyd Eiriolwyr Annibynnol Trais Rhywiol (ISVA), sy'n cael eu hariannu gennyf ac sy'n cefnogi dioddefwyr drwy'r broses cyfiawnder troseddol a thu hwnt.

Fel Comisiynydd rwyf wedi ariannu cyfanswm o 10 ISVA, ac mae tri ohonynt wedi'u neilltuo a'u hyfforddi i gefnogi plant a phobl ifanc. Bydd SARC yn delio ag archwiliad meddygol fforensig o'r achwynydd gan staff meddygol hyfforddedig. Mae SARC hefyd yn darparu gwasanaeth hunan-atgyfeirio i ddioddefwyr sy'n dymuno cael cymorth meddygol a lles hyd yn oed os nad ydynt yn dymuno ymgysylltu â'r heddlu ar y pryd. Mae'r rhan hon o'u gwasanaeth yn gwbl gyfrinachol.

Mae'r pandemig ac wrth i gymdeithas ddod allan o'r cyfnodau clo wedi cael effaith fawr ar y proffil adrodd am droseddau treisio. Yn ystod y flwyddyn 2021/22 bu cynnydd o 35% mewn adroddiadau o dreisio. Yn fwy arwyddocaol, bu cynnydd o 53% mewn adroddiadau am ddigwyddiadau fforensig fyw. Gelwir digwyddiad yn fforensig fyw pan fo cyfle i gasglu tystiolaeth trwy archwiliad meddygol o naill ai'r achwynydd neu'r sawl a amheuir. Oherwydd natur gyfyngedig cyfleoedd fforensig, mae cynnydd o'r fath yn naturiol yn effeithio'n drwm ar alw nid yn unig tîm Amethyst ond hefyd yr heddlu'n ehangach a'n hasiantaethau partner.

Yn amlwg, ail-agor yr economi a phoblogrwydd gogledd Cymru fel cyrchfan wyliau fu'r rheswm pennaf am y cynnydd hwn mewn adroddiadau o dreisio. Mae'r Heddlu yn parhau i adolygu prosesau i wella gwasanaethau a darparu canlyniad ar gyfer achwynwyr cyn gynted â phosibl

O ran amserlenni ymchwilio, yr amser cyfartalog a gymerwyd i gwblhau achos a arweiniodd at ganlyniad Dim Camau Pellach (NFA) oedd ychydig dros chwe mis. Mae hyn yn cymharu â 12 mis yn y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae'r amser cyfartalog i gau achos lle y cyhuddwyd y sawl a amheuir wedi cynyddu o 13 mis i 18 mis.

Mae Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Erlyn y Goron ill dau wedi ymrwymo i gynyddu'r defnydd o Gyngor Cynnar gan gyfreithwyr arbenigol Trais a Throseddau Rhywiol Difrifol (RASSO) i adnabod trywydd ymholi perthnasol cyn gynted â phosibl. Byddai hyn yn sicrhau bod gan yr ymchwilwyr arweiniad cyfreithwyr a fydd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r ymchwiliadau. Mae defnyddio cyngor cynnar eisoes yn cael effaith gadarnhaol. Mae'r Heddlu yn parhau i weithio gyda'u partneriaid i graffu ar ymchwiliadau i sicrhau bod yr ymchwiliadau o'r safon uchaf. Mae uwch gyfreithiwr yn samplu penderfyniadau'r NFA drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod y penderfyniadau'n gyson ac yn gyfiawn.

Mae Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Erlyn y Goron ac Eiriolwyr Annibynnol Trais Rhywiol yn cynnal cyfarfod misol i adolygu'r holl achosion a restrir ar gyfer achos llys er mwyn sicrhau bod gan y dioddefwyr hynny fynediad at gefnogaeth ISVA os ydynt yn dymuno ei dderbyn. Mae staff cymorth arbenigol yn darparu pecyn gwybodaeth i bob dioddefwr sy'n esbonio'r broses cyfiawnder troseddol gyfan o'r adroddiad i'r llys.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Heddlu Gogledd Cymru wedi gweld mwy o ddefnydd o dystiolaeth a gofnodwyd cyn achos llys gan ddioddefwyr sy'n blant ac yn oedolion. Mae hwn yn fesur arbennig sy'n caniatáu i groesholi dioddefwr gael ei gynnal a'i gofnodi cyn yr achos llys.

**Uchafbwyntiau**

- R v A: Cafwyd y diffynnydd yn euog ar ôl achos o drosedd treisio a'i ddedfrydu i garchar am oes.
- R v B: Gweithiodd y Swyddog yn agos gyda chyfreithiwr RASSO i ymchwilio i ddiffynnydd a oedd wedi cael ei erlyn yn aflwyddiannus yn flaenorol. Ar ôl i dystiolaeth newydd ddod i'r amlwg, cafwyd y diffynnydd yn euog o nifer o droseddau rhyw a chafodd ei ddedfrydu i 20 mlynedd o garchar.
- R v E: Mae'r diffynnydd wedi pledio'n euog i 18 cyhuddiad yn ymwneud â throseddau rhyw yn erbyn chwe dioddefwr gwahanol.

**Prosiect Caniatâd** – Gall atal digwyddiadau rhag digwydd yn y lle cyntaf atal trallod sylweddol i bob parti. Mae swyddog o dîm Amethyst wedi gweithio gyda chydweithwyr yn y prosiect Strydoedd Mwy Diogel, SchoolBeat a chwmni ffilm i ddatblygu adnodd addysgol i amlygu pwysigrwydd cydsynio mewn perthnasoedd rhywiol. Mae'r adnodd wedi'i anelu'n benodol at fechgyn a dynion ifanc er mwyn sicrhau eu bod yn llwyr ddeall goblygiadau diystyru caniatâd yn eu perthnasoedd rhywiol yn y dyfodol. Bydd yr adnodd hwn yn cael ei ddefnyddio gan swyddogion cyswllt ysgolion ledled Cymru i amlygu pwnc addysgol anodd ond angenrheidiol.

**Fan Fforensig Ddigidol** – Sicrhawyd cyllid i brynu fan a chyfarpar cysylltiedig i ddelio â lawrlwytho dyfeisiau ffôn dioddefwyr a thystion yn fforensig. Dim ond gyda chaniatâd ysgrifenedig y dioddefwr neu'r tyst ac os yw'n berthnasol i'r ymchwiliad y cynhelir yr archwiliadau hyn. Er mwyn cyflymu'r broses bydd yr archwiliwr yn awr yn gallu teithio i gartref y dioddefwr a chwblhau'r archwiliad yn yr amser byrraf posibl. Bydd yr adnodd hwn yn cynorthwyo ymchwiliadau nid yn unig ym maes RASSO ond hefyd mewn achosion fel Cam-drin Domestig, aflonyddu a stelcian.

Mae'n gwbl briodol bod ymchwiliadau i dreisio a throseddau rhywiol difrifol yn parhau i dderbyn lefelau uchel o graffu gan fy Mwrdd Gweithredol Strategol a Bwrdd Cyfiawnder Gogledd Cymru. Bydd Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i ymdrechu i leihau amserlenni ymchwilio trwy ddefnyddio Cyngor Cynnar a chydweithio'n agos gydag asiantaethau partner. Fel Cadeirydd Bwrdd Cyfiawnder Gogledd Cymru, byddaf hefyd yn gweithio gyda'n partneriaid yn y system cyfiawnder troseddol i gyflawni'r nod hwn.

Yn dilyn cytundeb rhyngof i a'r Prif Gwnstabl, mae Heddlu Gogledd Cymru hefyd wedi ymrwymo i ymuno ag Ymgyrch Soteria. Rhaglen ar y cyd rhwng yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yw hon a gynlluniwyd i ysgogi gwelliannau sy'n anelu at y canlynol:

1. Lleihau cyfran yr achosion sy'n dod i ben oherwydd bod dioddefwr yn tynnu'n ôl
2. Datblygu offer a thechnegau newydd i sicrhau bod ymchwiliadau i drais rhywiol yn drylwyr ac yn effeithiol.
3. Sicrhau bod ymchwiliadau'n dod yn fwy canolbwyntiedig ac effeithlon, gyda'r nod o gynyddu amseroldeb a nifer yr achosion sy'n mynd drwy'r system. Trwy'r gwaith hwn bydd swyddogion heddlu yn fwy medrus a phrofiadol, a thrwy hynny yn gallu cefnogi dioddefwyr yn well, gan arwain at ostyngiad yn nifer y dioddefwyr sy'n tynnu'n ôl.

**MOSOVO** – Rheoli Troseddwyr Rhywiol neu Dreisgar

Mae gan Heddlu Gogledd Cymru dri thîm MOSOVO ar draws ardal yr Heddlu. Eu prif rôl yw rheoli troseddwyr a monitro troseddwyr rhyw cofrestredig a throseddwyr treisgar ar draws yr Heddlu. Mae'r tîm hefyd yn cynnal ymweliadau dirybudd â'u cyfeiriad cartref/ safle gwaith. Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth prawf a gwasanaethau cymdeithasol yn ogystal ag asiantaethau trydydd sector i gasglu gwybodaeth a dod â throseddwyr o flaen eu gwell.

## CYFLAWNIADAU DIWEDDAR

- Penodi Ditectif Arolygydd a thri Ditectif Ringyll i reoli trefniadau MOSOVO a MAPPA (Asesiad Aml-asiantaeth ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd) ar draws gogledd Cymru i ddarparu mwy o gysondeb ymagwedd.
- Parhau i wella cysylltiadau â phlismona lleol i amlygu troseddwyr sy'n peri'r risg uchaf o niwed yn y gymuned leol – i gynorthwyo i ceisio gwybodaeth bellach a chreu canolfannau gwybodaeth lleol.
- Gweithio'n agos gyda'r holl asiantaethau i lunio cynlluniau rheoli risg a rennir gyda'r Arolygwyr Ardal i'w cynnwys yn eu cynlluniau patrôl a'u bwletinau dyddiol.
- Ceisio canlyniadau cyfiawnder troseddol yn rhagweithiol ar gyfer y troseddwyr hynny sy'n torri eu gorchmynion atal niwed rhywiol / yn cyflawni troseddau pellach. Mae llawer o'r euogfarnau hyn wedi'u hamlygu mewn papurau newydd lleol a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i dawelu meddwl y cyhoedd o'n penderfyniad i amddiffyn ein cymunedau.
- Ymchwilio i ddatblygiadau mewn technoleg ddigidol i fonitro troseddwyr a lleihau'r galw ar staff MOSOVO.
- Gwnaed cais llwyddiannus diweddar i'r Swyddfa Gartref am gyllid ar gyfer meddalwedd monitro o bell y gellir ei osod ar ddyfeisiau troseddwyr.



## Blaenoriaeth Cynllun Heddlu a Throsedd: **Diogelu pobl agored i niwed**

### BETH FYDDAF YN EI WNEUD?

- Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol, gan ystyried cyfleoedd i ymyrryd ac atal cyfranogiad yn y dyfodol.
- Gweithio gyda phartneriaid yn y Bwrdd Cynllunio Ardal a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i leihau marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac effaith camddefnyddio alcohol a sylweddau.
- Gweithio gyda phartneriaid i wella cyfathrebu rhwng yr heddlu a'r rhai ag anghenion iechyd meddwl neu anawsterau dysgu a hyrwyddo cerdyn Cadw'n Ddiogel Cymru.
- Gweithio i gefnogi mannau diogel, cyfeillgar heb fod yn y ddalfa i'r rhai sy'n profi argyfwng neu sydd mewn perygl o gael eu cadw dan Adran 136 neu 135 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl.
- Codi ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl trwy gefnogi ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol.
- Annog dioddefwyr sy'n profi salwch meddwl i adrodd am droseddau casineb.
- Gweithio gyda phartneriaid i adnabod arwyddion caethwasiaeth fodern yn gynnar ac ymateb o safon  arwyddion o'r fath.
- Sicrhau bod gan ddioddefwyr caethwasiaeth fodern ymddiriedaeth a hyder yn Heddlu Gogledd Cymru mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill.
- Sicrhau bod Heddlu Gogledd Cymru yn ystyried caethwasiaeth fodern fel mater o drefn fel rhan o'i weithgarwch caffael ei hun a sefydlu llwybrau atgyfeirio priodol.




**Ymgyrch Tylluan** yn barhad o ymchwiliad cudd cynharach llwyddiannus, o'r enw Revolution, a chwalodd linell gyfuriau o Lannau Mersi. Canolbwyntiodd Tylluan ar ymchwilio i gamfanteisio ar blentyn 14 oed a oedd yn derbyn gofal, a oedd yn cael ei fasnachu i drin cyffuriau Dosbarth A fel rhan o fodel llinellau cyffuriau. Roedd yr ymgyrch yn canolbwyntio ar sicrhau tystiolaeth yn erbyn yr unigolion hynny a oedd wedi hwyluso'r camfanteisio trwy fasnachu'r dioddefwr o amgylch y wlad. Cafodd y dioddefwr ei gadw mewn caethiwed a chaethwasiaeth a'i orfodi i wneud llafur gorfodol tra ar yr un pryd roedd y troseddwyr yn cynllwynio i gyflenwi heroin a chrac cocên.

Drwy gydol diwedd 2021 a dechrau 2022 bu'r Adran Ganolog ar gyfer Ymchwiliadau Troseddol (CID) yn gweithio'n ddiflino i sicrhau erlyniadau cyntaf y wlad am gaethwasiaeth fodern. Daeth yr ymchwiliad i ben gydag wythnos o weithredu, mewn lleoliadau ar draws y DU, gyda'r rhai oedd yn gyfrifol yn cael eu dwyn i gyfrif.

Dros gyfnod o dri diwrnod, arestiwyd a chyfwelwyd cyfanswm o 17 unigolyn o bob rhan o'r DU a gafodd eu hadnabod fel rhan o'r cynllwyn, gyda nifer yn cael eu cyhuddo a'u cadw yn y ddalfa am droseddau lluosog yn amrywio o gynllwynio i gyflenwi cyffuriau Dosbarth A (heroin a chrac cocên ), i gynllwynio i fasnachu pobl, cynllwynio i gadw pobl mewn caethwasiaeth a chaethwasanaeth a throseddau yn ymwneud ag achosi i berson gyflawni llafur gorfodol.

**Ymgyrch Blue Drum** Grŵp Troseddau Trefnedig (OCG) wedi'i leoli ar ystâd Holway yn Nhreffynnon. Roedd y teulu dan sylw yn enwog ar yr ystâd ac yn gyfrifol am gyflenwi cyffuriau Dosbarth A yn lleol. Cafwyd pedwar aelod o'r teulu yn euog a'u dedfrydu i dros 12 mlynedd yn y carchar, ac o ganlyniad bu gostyngiad sylweddol mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol ar yr ystâd a chafwyd adborth cadarnhaol gan y gymuned leol.

**Ymgyrch Blue Lancelot** Grŵp Troseddau Trefnedig oedd yn cyflenwi cyffuriau Dosbarth A ym Mharc Caia, Wrecsam. Roedd y cynllwyn werth dros £750k. Dedfrydwyd 19 o ddiffynyddion i gyfanswm o 133 o flynyddoedd, gan gael effaith sylweddol yn lleol.

Roedd **Ymgyrch Blue Icesat** yn ymgyrch benodol a oedd yn canolbwyntio ar leihau troseddau cyllyll a thrais ymhlith pobl ifanc yng nghanol tref y Rhyl. Roedd digwyddiadau a gwybodaeth yn cefnogi'r ddamcaniaeth bod pobl ifanc yn cario cyllyll fel mater o drefn i amddiffyn eu hunain ac i'w cynorthwyo i ddatblygu eu gweithgareddau gwerthu cyffuriau. Arweiniodd hyn at drais sylweddol ar nifer o achlysuron, gan achosi i bryderon cymunedol dyfu. Cymerodd Heddlu Gogledd Cymru gamau gorfodi ar unwaith a gwnaed dros 100 o arestiadau cysylltiedig yn ystod y cyfnod adrodd. Ochr yn ochr â hyn, cyhoeddwyd 48 o orchmynion mewn perthynas â'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus canol tref ac awdurdodwyd nifer o orchmynion cau.

I gefnogi'r gwaith atal, cyflwynwyd fforwm diogelwch cymunedol ar lefelau strategol a gweithredol i gydlynu gwaith aml-asiantaeth ar draws y Rhyl. Barnwyd bod hyn yn arfer da ac yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i sicrhau ymgysylltu effeithiol â chymunedau lleol. Mae dadansoddiad cyfredol yn dangos bod nifer y digwyddiadau perthnasol yr adroddwyd amdanynt wedi gostwng yn ddramatig.

## CAETHWASIAETH FODERN

Mae gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fod yn sylfaenol i'r dull o fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern. Mae'r Bwrdd Agored i Niwed a Chamfanteisio rhanbarthol, dan gadeiryddiaeth fy Mhrif Swyddog Gweithredol, wedi parhau yn ei ymdrechion i fwrw ymlaen â dull cydgysylltiedig ac ymarferol o ymdrin â'r materion y mae caethwasiaeth fodern yn eu codi.

Mae diogelu yn ganolog i'n hymdrechion i amddiffyn dioddefwyr rhag niwed pellach, ac rwy'n falch o weld perthynas waith gadarn rhwng y Byrddau Diogelu (Plant ac Oedolion) a'r Bwrdd Agored i Niwed a Chamfanteisio.

Mae fy Nirprwy CHTh yn cadeirio fforwm sydd newydd ei sefydlu sy'n adrodd i'r Bwrdd Agored i Niwed a Chamfanteisio. Cynhaliodd Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Caethwasiaeth Fodern ei gyfarfod cyntaf ym mis Tachwedd 2021. Mae'r fforwm hwn yn sicrhau bod y rhai sy'n gweithio ar y rheng flaen sy'n delio â dioddefwyr a'r rhai sy'n cwympo allan o droseddau caethwasiaeth fodern yn gallu rhannu gwybodaeth a chydweithio. Mae'n ein helpu i ddeall y darlun llawn o gaethwasiaeth fodern ar draws y Gogledd a bydd yn helpu i ddod â chysondeb ac ansawdd i'r gwasanaethau a ddarperir.

Fel gyda chaethwasiaeth fodern erioed, mae codi ymwybyddiaeth yn hanfodol. Mae'n parhau i fod yn drosedd gudd, felly rwy'n sicrhau, mewn unrhyw ffordd y gallaf, fy mod yn cefnogi digwyddiadau a phrosiectau i godi ymwybyddiaeth a thaflu goleuni ar sut olwg sydd ar gaethwasiaeth fodern yng Ngogledd Cymru. Rhoddodd fy Nirprwy Gomisiynydd araith yng nghynhadledd flynyddol BAWSO ym mis Hydref 2021, a oedd yn canolbwyntio ar gaethwasanaeth domestig (math o gaethwasiaeth fodern sy'n aml yn cael ei gamgymryd am gam-drin domestig).

Hefyd, ym mis Hydref, mynychodd fy Nirprwy a minnau gangen Sir Ddinbych o'r Soroptomistiaid Rhyngwladol lle draddodais araith a chyfarfod ag aelodau sy'n gweithio'n galed i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern yng ngogledd Cymru.

Rwy'n parhau i fonitro'r darlun cenedlaethol, rhanbarthol a lleol o ran caethwasiaeth fodern ac yn gweithio gyda llawer o asiantaethau gan gynnwys y Swyddfa Gartref, y Rhaglen Troseddau Mewnfudo Trefnedig a Chaethwasiaeth Fodern, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, y Comisiynydd Atal Caethwasiaeth Annibynnol a'r Rhaglen Gwrth-Gaethwasiaeth a Masnachu Pobl Genedlaethol.

Rydym yn parhau i addysgu a chodi ymwybyddiaeth o'r offer sydd ar gael i ymchwilwyr gyda Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae hyn yn cynnwys erlyniadau a arweinir gan dystiolaeth a defnyddio Gorchmynion Risg neu Atal Caethwasiaeth i amddiffyn pobl agored i niwed ac amharu ar gyflawnwyr. Mae camfanteisio yn bresennol ond yn aml yn cael ei guddio o fewn troseddau eraill megis cyflenwi cyffuriau trefnedig ac rydym yn benderfynol o wneud defnydd o'r holl ddeddfwriaeth ac offer sydd ar gael i ni i atal troseddwyr rhag defnyddio pobl fel nwyddau.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'n siŵr y bydd y cyfnod clo cenedlaethol, effaith y pandemig byd-eang ac aflonyddwch mewn sawl rhan o'r byd fel Syria, Afghanistan ac Wcráin i gyd wedi cyfrannu at newidiadau yn y ffordd y mae troseddwyr yn gweithredu ac felly'r ymateb sydd ei angen gan asiantaethau gan gynnwys yr heddlu. Er gwaethaf y ffactorau a amlygwyd, mae adrodd ar gaethwasiaeth fodern yn parhau'n gyson, gyda 98 o ddigwyddiadau wedi'u cofnodi yng ngogledd Cymru, cynnydd o 1% ar y flwyddyn flaenorol. Mae'n debygol y bydd hyn yn parhau i godi yn 2022/23 wrth i gyfyngiadau ar symud yn sgil Covid-19 gael eu llacio. Gyda'r fath aflonyddwch byd-eang rwy'n ymwybodol o'r cyfleoedd y gall troseddwyr eu gweld i gamfanteisio ar ffoaduriaid sy'n dod i ogledd Cymru. Rwy'n sicrhau drwy amrywiol gyfarfodydd a fforymau bod yr holl asiantaethau cyfiawnder troseddol yn cadw ffocws ar y bygythiad hwn.

Mae ymchwiliadau caethwasiaeth fodern yn hynod gymhleth a heriol ac mae euogfarnau yn parhau i fod yn anodd eu sicrhau, fodd bynnag, mae un ymchwiliad wedi gweld deg o bobl yn cael eu cyhuddo o droseddau cyflenwi cyffuriau a masnachu mewn pobl. Gwnaed cais am Orchmynion Risg Caethwasiaeth yn yr achos hwnnw. Mewn dau ymchwiliad arall, awdurdodwyd cyhuddiadau eraill pan oedd camfanteisio yn amlwg.

Gwelwyd 16 o unigolion yn cael eu harestio am droseddau caethwasiaeth rhwng Ionawr-Mawrth 2022 o gymharu â dim ond pedwar ar gyfer yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol sy'n arwydd o'r dull ymchwiliol a arweinir gan dystiolaeth. Yn yr un cyfnod roedd 29 o atgyfeiriadau Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, o gymharu â 22 yn y flwyddyn flaenorol. Roedd 70% o ddioddefwyr caethwasiaeth yn Brydeinig gyda 54% o ddioddefwyr yn bobl ifanc, a 55% yn ddynion. O ran y rhai a amheuwyd o droseddau caethwasanaeth, roedd 85% yn oedolyn a 57% yn wyn Prydeinig

Mae adrodd yn ystod y cyfnod hwn wedi ymwneud yn bennaf â chamfanteisio troseddol, gyda mwy na 56% o'r holl adroddiadau yn ymwneud â'r math hwn o drosedd. Eleni bu cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau yn ymwneud â chamfanteisio rhywiol gyda 15 yn ymwneud yn benodol â chamfanteisio rhywiol (o gymharu â phump y llynedd), a naw arall yn ymwneud â chamfanteisio rhywiol ynghyd â ffurfiau eraill o gamfanteisio. Roedd 86% o fathau o gamfanteisio troseddol yn gysylltiedig â chyflenwi cyffuriau. Roedd 67% o'r holl ddioddefwyr camfanteisio troseddol mewn perthynas â phobl 17 oed ac iau.

Mae buddsoddiad pellach wedi'i wneud yn Uned Camfanteisio HGC sy'n dod ag adrannau a fu gynt ar wahân ynghyd gan gyfuno cydlynydd caethwasiaeth fodern HGC, y Tîm Ymchwilio Ar-lein i Gam-drin Plant a'r Tîm Camfanteisio ar Blant (Onyx). Mae hyn yn caniatáu ar gyfer defnydd mwy effeithlon o adnoddau, dealltwriaeth gynharach o risg neu dueddiadau sy'n dod i'r amlwg ac adnabod mwy effethiol o gamfanteisio ymhlith troseddau eraill.

Newidiodd y Tîm Camfanteisio ar Blant ei gylch gwaith chwe mis yn ôl i ymgorffori pob math o gamfanteisio ar blant yn hytrach na cham-drin plant yn rhywiol yn unig (CSE). Mae'r newid hwn yn caniatáu ar gyfer adnabod camfanteisio'n gynharach lle gall ymddangos ar yr olwg gyntaf fod plentyn yn cyflawni troseddau. Mae hyn yn golygu bod y plentyn yn cael ei drin fel dioddefwr yn hytrach nag fel rhywun a ddrwgdybir o'r cychwyn cyntaf. Fel Comisiynydd, rwy'n frwd dros beidio â throseddoli plant a phobl ifanc pan mai cymorth, adsefydlu a dargyfeirio yw'r canlyniadau mwyaf effeithiol.

Roedd carfan o blant yn Sir Ddinbych yn gyfrifol am nifer o ddigwyddiadau trosedd ac anhrefn a gofnodwyd. Arbenigedd ein timau wnaeth adnabod yr holl arwyddion o gamfanteisio. Mae trin y plant hyn fel rhai "mewn perygl", ac fel dioddefwyr, wedi arwain at ymgysylltu ac ymyrryd effeithiol, gostyngiad enfawr mewn adroddiadau o droseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac unigolion coll, gyda llawer o'r bobl ifanc yn dychwelyd i addysg neu'n dod o hyd i gyflogaeth.

Cyn bo hir bydd Uned Troseddau Trefnedig Rhanbarthol y Gogledd Orllewin (ROCU) yn mabwysiadu'r rhaglen "Camfanteisio Ar-lein wedi'i Dargedu" (TOEX) a ariennir gan y Swyddfa Gartref sy'n golygu y bydd gan Heddlu Gogledd Cymru fynediad at gymorth ychwanegol i ddarparu darlun gwybodaeth gwell o gamfanteisio trefnedig. Bydd yr hyn a ddarperir gan TOEX yn llywio ein prosesau pennu tasgau ac yn ein galluogi i wneud gwell penderfyniadau ynghylch adnoddau. Mae cylch gwaith TOEX yn canolbwyntio'n benodol ar gam-drin plant yn rhywiol mewn grŵp, camfanteisio troseddol, caethwasiaeth fodern/troseddau mewnfudo trefnedig a llinellau cyffuriau.

Trwy gytundeb partneriaeth rhwng yr holl awdurdodau lleol a Heddlu Gogledd Cymru, lansiwyd Ymgyrch Innerste yng ngogledd Cymru ar 31 Mawrth 2022. Mae hon yn ymgyrch genedlaethol i ddiogelu plant sy'n mudo ac sydd ar eu pennau eu hunain. Mae'n golygu gweithio gyda UK Immigration, a dangoswyd bod hyn yn arwain at leihad o 75% yn yr adroddiadau o blant sydd ar goll neu sy'n cael eu hail fasnachu.

Cynhaliwyd hyfforddiant ar y cyd i ymchwilwyr ym mis Tachwedd 2021 gyda'r Heddlu, Gorfodi Mewnfudo a'r Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur (GLAA) yn dod at ei gilydd i dderbyn yr un hyfforddiant. Caniataodd hyn well dealltwriaeth o gylchoedd gwaith a phwerau ymchwilio gwahanol asiantaethau, rhywbeth sydd eisoes wedi esgor ar fuddion mewn ymchwiliad aml-asiantaeth, a arweiniwyd gan y GLAA i gamfanteisio o fewn y sector gofal.

Cynhaliwyd ymarfer aml-asiantaeth ym mis Tachwedd 2021 i brofi ein hymateb pe bai digwyddiad cudd gollwng o lorïau, yn debyg i'r amgylchiadau trasig yn Essex yn 2019. Daeth hyn â phartneriaid ynghyd i ddeall ei gilydd o ran amcanion, cryfderau a heriau, gyda rhywfaint o ddysgu gwerthfawr i bawb.

Mae Troseddau Mewnfudo Cyfundrefnol yn rhywbeth sy'n fwy cyffredin nag erioed, o ystyried pa mor ansefydlog y mae rhai rhannau o'r byd yn parhau i fod, pa mor ddeniadol y mae'r DU yn parhau i fod fel cyrchfan, a'r peryglon y mae pobl yn barod i'w dioddef er mwyn dod i mewn i'r DU yn anghyfreithlon. Mae Grwpiau Troseddau Trefnedig diegwyddor sy'n defnyddio rhwydweithiau teithio i gludo nwyddau anghyfreithlon eraill yn manteisio ar y cyfnod ansicr hwn i gludo pobl ac elwa o drallod pobl eraill. Bydd llawer o Grwpiau Troseddau Trefnedig yn achub ar y cyfle nid yn unig i elwa o hwyluso teithio i'r DU ond hefyd i gamfanteisio ar y bobl agored i niwed hynny a'u rhwydo i gaethwasiaeth neu fywyd o droseddu.

Mae'n rhaid i gaethwasiaeth a masnachu mewn pobl o fewn Grwpiau Troseddau Trefnedig, nad ydynt efallai yn brif weithgarwch troseddol y grwpiau hynny, fod yn ffocws i Heddlu Gogledd Cymru am y 12 mis nesaf. Bydd Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar yr ymagwedd a arweinir gan dystiolaeth at ymchwiliadau ac yn ceisio cynyddu'r defnydd o Orchmynion Risg ac Atal Caethwasiaeth, yn enwedig mewn ymchwiliadau i gyflenwi cyffuriau ac ymchwiliadau llinellau cyffuriau sy'n debygol o gynrychioli'r rhan fwyaf o gamfanteisio troseddol.

## Blaenoriaeth Cynllun Heddlu a Throsedd: **Mynd i'r afael â seiberdroseddu a'i atal**

### BETH FYDDAF YN EI WNEUD?

- Gwella hyfforddiant ar gyfer ein holl gymunedau a busnesau, gan eich cefnogi i gael yr offer allweddol i aros yn ddiogel.
- Gweithio'n agos gyda'n hasiantaethau cenedlaethol sy'n arwain ar fynd i'r afael â seiberdroseddu a thwyll y DU, gan eu dwyn i gyfrif a gweithio gyda nhw i amddiffyn pobl gogledd Cymru.
- Byddaf yn buddsoddi ymhellach mewn pecynnau meddalwedd a thechnoleg caledwedd fel bod swyddogion yn aros un cam ar y blaen i'r rhai sy'n torri'r gyfraith.
- Gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys Canolfan Seibergadernid yng Nghymru i amddiffyn pobl rhag y broblem gynyddol o sgamiau ac ymddygiad twyllodrus.
- Sicrhau bod Heddlu Gogledd Cymru yn ymgysylltu â'r Ganolfan Rheolaeth Genedlaethol (cyfleuster seiberddiogelwch a gefnogir yn genedlaethol ar gyfer heddluoedd ledled Cymru a Lloegr) fel rhan o'i strategaeth atal.

Y llynedd comisiynais Get Safe Online i ddarparu gwasanaeth cymorth seibr i gymunedau'r Gogledd. Mae Get Safe Online yn bartneriaeth sector cyhoeddus/preifat di-elw a gefnogir gan sefydliadau blaenllaw ym meysydd bancio, manwerthu, diogelwch rhyngrwyd a sectorau eraill. Maent wedi'u hardystio gan Cyber Essentials.

Bydd y contract 12 mis yn golygu eu bod yn cyflenwi'r canlynol:

- 12 x ymgyrch misol a phecyn cyfryngau
- Cynnwys gwe
- Partneriaeth
- Dau ddiwrnod o hyfforddiant ymwybyddiaeth gymunedol
- Digwyddiad cyhoeddus byw Get Safe Online
- Digwyddiad busnes byw Get Safe Online
- Mynediad at adnoddau wal dâl ychwanegol
- Llefarydd/cyswllt penodedig ar gyfer cymorth a chyngor.

Mae gan Get Safe Online rai adnoddau gwych i helpu'r gymuned i deimlo'n hyderus ac yn ddiogel ar-lein. Bydd y rhaglen yn cael ei rheoli gan fy nhîm cyfathrebu ond yn gweithio ar y cyd â Thîm Seiberdroseddu a Hyb Atal Heddlu Gogledd Cymru a'r Ganolfan Cymorth Dioddefwyr.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae tîm seiberdroseddu Heddlu Gogledd Cymru wedi gweithio'n rhagweithiol er mwyn helpu i amddiffyn y cyhoedd yng ngogledd Cymru rhag seiberdroseddu trwy rannu cyngor, gwybodaeth ac arweiniad am seiberddiogelwch a diogelwch. Mae'r tîm wedi rhoi dros 260 o gyflwyniadau Cyber Protect and Prevent i gynulleidfa o dros 7,500 o bobl. Mae tudalennau cyfryngau cymdeithasol y tîm sy'n rhannu cyngor ac arweiniad rheolaidd ynghylch seiberddiogelwch a diogelwch wedi cyrraedd bron i 5.5 miliwn dros y 12 mis diwethaf.

Mae'r tîm wedi ymgysylltu'n rheolaidd ag ysgolion, colegau a grwpiau cymunedol ar draws y Gogledd i wella gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i gadw'n ddiogel ar-lein. Mae'r tîm hefyd wedi ymgysylltu â busnesau i ddiogelu economi gogledd Cymru rhag effaith ymosodiadau seiber ac wedi datblygu

perthynas waith gref gyda Chanolfan Seiber Gydnerth Cymru.Mae'r Tîm hefyd wedi mynychu digwyddiadau proffil uchel ar draws gogledd Cymru megis Arddangosfa Busnes Gogledd Cymru, Eisteddfod yr Urdd a sioeau amaethyddol i rannu cyngor ar sut i osgoi twyll ar-lein a throseddau seibr. Mae'r gwaith amddiffyn a pharatoi seiber rhagweithiol hwn wedi'i gefnogi gan wirfoddolwyr seiber profiadol y tîm.

Mae aelodau tîm seiberdroseddu yn cael hyfforddiant mewn meddalwedd Chainalysis i gynorthwyo ymchwiliadau arian cyfred rhithwir, gan arwain at rywfaint o gynnydd cadarnhaol yn y maes cymhleth hwn o ymchwiliad troseddol. O ganlyniad i'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn y maes hwn, mae'r tîm yn adeiladu partneriaethau gwaith cryf gyda chyfnewidfeydd arian cyfred digidol ledled y byd i gynorthwyo i dynnu sylw at actorion drwg ac asedau rhwystredig a ddrwgdybir. Mae llawer o heriau yn y maes hwn, sy'n cynnwys ymholiadau rhyngwladol gydag awdurdodau gorfodi'r gyfraith eraill sy'n cefnogi dioddefwyr yn eu hawdurdodaeth eu hunain – i geisio dibynnu ar ddeddfwriaeth y DU nad oedd wedi'i llunio ag arian cyfred rhithwir mewn golwg. Serch hynny, mae'r uned fechan eisoes wedi tynnu sylw at symiau enfawr o arian hyd at filiynau o bunnoedd a gafwyd trwy ddulliau anghyfreithlon.

Dros y 12 mis diwethaf mae Covid-19 wedi golygu bod gweithio'n rhagweithiol i'r cyhoedd yn heriol ar brydiau, ond mae'r tîm wedi gallu addasu trwy gynnal rhai o'r cyflwyniadau ar-lein pan oedd amgylchiadau personol yn gwneud digwyddiadau byw yn anodd. Mae'r tîm hefyd wedi defnyddio dulliau arloesol fel defnyddio Rhybuddion Cymunedol i sicrhau bod cyngor pwysig ar Seiberddiogelwch a Diogelwch yn cyrraedd cymaint o bobl â phosibl.

- Dan arweiniad y tîm rhanbarthol, mae Seiber Larwm yr Heddlu yn parhau i gael ei wthio allan i fusnesau.
- Rhaglen Ysgolion Heddlu Gogledd Cymru/ Partneriaeth Criw Hanfodol. Er mwyn gwella ymhellach ymgysylltiad â phobl ifanc o fewn ardal yr heddlu datblygwyd partneriaeth gyda Rhaglen Ysgolion Heddlu Gogledd Cymru a'r Elusen Criw Craff. Mae hyn wedi gwella gallu tîm seiberdroseddu HGC i gael mynediad i ysgolion yn ardal yr heddlu i rannu cyngor amddiffyn ac atal gyda phobl ifanc.
- Cynhaliodd Gogledd Cymru Ystafell Ddianc Seiberddiogelwch Rhyngweithiol. Cymerodd cyfanswm o 135 o bobl ran mewn profiad dysgu rhyngweithiol awr o hyd yn seiliedig ar Seiberddiogelwch a Diogelwch ac roedd yr adborth yn ardderchog.



## Blaenoriaeth Cynllun Heddlu a Throsedd: **Sefydlu Panel Dioddefwyr**

### BETH FYDDAF YN EI WNEUD?

- Datblygu'r Ganolfan Cymorth Dioddefwyr ymhellach drwy leoleiddio'r gwasanaeth – cydweithio â holl awdurdodau lleol gogledd Cymru a sefydliadau trydydd sector.
- Sefydlu Panel Dioddefwyr sy'n rhoi cyfle i ddioddefwyr a goroeswyr ddweud wrthym beth y gellir ei wneud yn well gan fy nal i, yr heddlu ac asiantaethau ehangach i gyfrif.
- Gweithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd eraill a'r Comisiynydd Dioddefwyr i amlygu anghyfiawnder yn erbyn dioddefwyr a chefnogi diwygio deddfwriaeth i amddiffyn hawliau dioddefwyr.
- Ni ddylent fod yn destun gorchymyn a osodir gan y llysoedd na bod ar fechnïaeth (mechnïaeth yr Heddlu neu Lys) am droseddau sydd heb eu datrys.
- Rhaid i'r gwrthrych naill ai gyfaddef y drosedd neu, os bydd cyfweliad 'dim ateb' neu wadiad, rhaid bodloni Safonau Cyhuddo Gwasanaeth Erlyn y Goron.
- Mae'n rhaid i'r gwrthrych fod wedi cyflawni trosedd a allai fod yn gymwys ar gyfer gwarediad y tu allan i'r llys ac nad yw ar y rhestr o droseddau eithriedig.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn mae Checkpoint Cymru wedi canolbwyntio ar gyflawni cymaint o apwyntiadau wyneb yn wyneb â phosib o fewn cyfyngiadau Covid-19, gan ddod â'r tîm o Llywyr yn ôl i'r gweithle yn ddiogel tra'n parhau i weithredu patrwm gwaith cyfunol a oedd o fudd i bawb. Mae tîm Checkpoint Cymru yn gweithio'n galed i godi eu proffil o fewn Heddlu Gogledd Cymru. Mae Llywyr yn mynychu sesiynau briffio heddlu yn rheolaidd ar draws y Gogledd, ac ar ben hynny mae rheolwr Checkpoint Cymru yn mynychu cyfarfodydd uwch dîm rheoli a sesiynau hyfforddi amrywiol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r rhaglen.

Mae Checkpoint Cymru eisoes wedi derbyn rhai atgyfeiriadau gan Uned Diogelu Pobl Ddiamddiffyn y Dwyrain (PVPU) a bydd y tîm yn gweithio ar sefydlu tudalen wybodaeth ar gyfer safle Mewnrwyd yr heddlu i annog mwy o atgyfeiriadau o PVPU ar draws ardal yr Heddlu. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i Checkpoint dderbyn atgyfeiriadau achosion mwy cymhleth.

Mae dros ddwy flynedd bellach ers i Checkpoint ddod i fodolaeth. Wrth ystyried effaith sylweddol y pandemig, rydym yn awr yn dechrau gweld rhai newidiadau gwirioneddol ym mywydau cyfranogwyr, camau cadarnhaol tuag at ffordd o fyw mwy cymdeithasol ar ôl derbyn cymorth i fynd i'r afael â'r pethau sy'n cymell eu hymddygiad troseddol. Yn ystod y cyfnod hwn cawsom gyfanswm o 644 o atgyfeiriadau, gyda 310 ohonynt yn achosion Checkpoint a oedd yn destun cymorth pwrpasol am hyd at bedwar mis; ac roedd 334 yn atgyfeiriadau i'n Rhaglen Addysg Cyffuriau sy'n cyflwyno cwrs dwys yn canolbwyntio ar leihau niwed ac effaith euogfarn cyffuriau.

Mae Checkpoint Cymru yn parhau i chwilio am wasanaethau newydd i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhaglen, yn rhanbarthol ac yn lleol ac mae'n ymdrechu i gydweithio â chymaint o asiantaethau â phosibl i danategu'r cymorth cofleidiol sydd ar gael.

Mae Checkpoint Cymru yn fodel sy'n datblygu'n gyson. Gall yr hyn sy'n gweithio, a'r hyn nad yw'n gweithio gael ei asesu gan ddefnyddio ein profiadau ein hunain yn ogystal â phrofiadau ein cydweithwyr sydd hefyd yn darparu gwasanaethau cymorth erlyn gohiriedig. Rydym yn parhau i fod yn arloesol. Rydym hefyd yn ymrwymo i gefnogi cydweithwyr sy'n ymdrechu i ddarparu safonau ansawdd, arfer gorau, a darpariaeth gwasanaeth teg ar gyfer yr holl wasanaethau erlyn gohiriedig ledled Cymru.


HEDDLU
POLICE



# ARIANNU A CHYLLID

Fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd, rwy'n gyfrifol am osod y gyllideb a ddarperir i'r Prif Gwnstabl ar gyfer darparu plismona yng ngogledd Cymru. Dyrannwyd cyllideb net o £170.159m i'r Prif Gwnstabl ar gyfer 2021/22. Defnyddiwyd y £2.643m a oedd yn weddill ar gyfer fy Nghronfa Gomisiynydd (sy'n ariannu mentrau megis diogelwch cymunedol, ymyrraeth cyffuriau, cyfiawnder ieuenctid a Checkpoint Cymru) a hefyd costau fy swyddfa. Mae Prif Swyddog Cyllid SCHTh yn gweithio'n agos gyda, ond yn annibynnol ar, Gyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Heddlu Gogledd Cymru i sicrhau rheolaeth a chynllunio ariannol effeithiol, ac i gyflawni swyddogaeth Adran 151.

Roedd grantiau Llywodraeth Ganolog (a benderfynwyd gan y Swyddfa Gartref) yn cyfrif am 48% o'r cyllid, gyda'r 52% arall yn cael ei ariannu gan drethdalwyr lleol. Mae'r unig gynnydd mewn grantiau'r llywodraeth ers 2020/21 naill ai'n gysylltiedig â'r rhaglen genedlaethol i gynyddu niferoedd swyddogion heddlu 20,000 dros dair blynedd (Operation Uplift) neu'n grantiau penodol untro tuag at gostau delio â phandemig Covid-19. Gan gymryd chwyddiant i ystyriaeth, roedd y setliad ariannol ar y gwastad gwaelodol unwaith eto yn doriad mewn termau real.

Mae'r Datganiadau Cyfrifon ar gael ar fy ngwefan. Roedd y sefyllfa ariannol gyffredinol yn 2021/22 yn parhau i fod yn heriol. Cyflawnwyd £2.902m o arbedion, a chafodd £2.642m ohono ei ailgylchu i gefnogi gwasanaethau rheng flaen. Yn ystod 2021/22 barnwyd ei bod yn ddoeth cynyddu cronfeydd wrth gefn; ac ychwanegwyd £0.750m at y gyllideb flynyddol yn benodol i liniaru costau ESN (y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys, a fydd yn disodli system radio Airwave).

## SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD

Gosodwyd y gyllideb flynyddol ar gyfer 2021/22 ar £0.955m, gyda'r gyllideb gomisiynu net yn cynnwys £1.688m pellach, sy'n ariannu nifer o wasanaethau fel y nodir yn adran nesaf yr adroddiad hwn, gan gynnwys dargyfeiriad i gynlluniau Checkpoint Cymru a Dechrau Newydd.

Cefais grantiau penodol hefyd ar gyfer comisiynu gwasanaethau, gan gynnwys £0.478m gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM, £1.810m gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ac £1.164m gan Lywodraeth Cymru. Llwyddodd y Swyddfa hefyd i sicrhau grantiau o'r Gronfa Strydoedd Mwy Diogel a'r Gronfa Diogelwch Merched yn y Nos a oedd werth £1.025m yn ystod y flwyddyn.

## STRATEGAETH YSTADAU

Mae'r gwaith o weithredu Strategaeth Ystadau 2018-2028 yn parhau, sy'n cynnwys datgomisiynu adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol. Parhaodd gweithio ystwyth yn ystod 2021/22, ac mae pob swydd wedi'i hasesu i benderfynu pa swyddi sy'n addas ar gyfer parhau i weithio gartref yn barhaol.

Mae'r gofod a ryddhawyd gan y fenter hon yn cyfrannu at y gofod sydd ei angen ar gyfer y 206 o swyddogion heddlu ychwanegol o ganlyniad i Operation Uplift, a'r staff ychwanegol sydd eu hangen arnom i gefnogi'r nifer uwch o swyddogion.

Mae buddsoddiad yn parhau yn yr ystâd. Cwblhawyd y gwaith o adnewyddu a moderneiddio Gorsaf Heddlu Pwllheli yn llwyr, ac mae eiddo wedi'i gaffael er mwyn adleoli'r Ganolfan Comisiynu Cerbydau.

## Y RHAGOLYGON ARIANNOL

Er y cyhoeddwyd yn y gyllideb y byddai plismona yn derbyn setliad ariannu tair blynedd, mae cryn asicrwydd o hyd. Oherwydd nifer o ffactorau, yn enwedig y rhyfel yn Wcrain, mae prisiau tanwydd ac ynni yn cynyddu hyd yn oed yn gyflymach nag a ragwelwyd pan osodwyd cyllideb 2022/23.

Mae cost amcanol y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (yn lle system radio Airwave) yn parhau i gynyddu, heb unrhyw warant o grant ychwanegol er mwyn helpu i wrthbwyso'r gost sylweddol.

Bob blwyddyn mae'r Swyddfa Gartref yn brigdorri cyfran o'r gyllideb blismona ar gyfer dyraniadau canolog. Yn 2022/23 roedd hyn yn gyfanswm o £1.347bn – neu ychydig dros 11% o gyllid llywodraeth ganolog ar gyfer plismona – na ellir wedyn ei ddyrannu i feysydd heddlu drwy'r fformiwla ariannu.

Mae'r fformiwla ariannu ei hun yn cael ei hadolygu. Dechreuodd y gwaith yn ystod 2021/22, gyda'r bwriad o ymgynghori yn ystod gwanwyn neu haf 2022, gyda'r gweithredu'n dechrau o 1 Ebrill 2023. Heb wybod canlyniad yr adolygiad fformiwla a'r ymgynghoriad, a hefyd y trefniadau trosiannol i symud o'r fformiwla bresennol i un newydd, mae'n amhosib bod yn sicr o'r effaith ar grantiau heddlu yn rhanbarth Gogledd Cymru.

Mae ansicrwydd o hyd ynghylch ariannu pensiynau'r heddlu. Ar hyn o bryd rydym yn derbyn grant penodol sy'n ariannu bron i 50% o'r cynnydd diweddaraf yng nghostau pensiwn yr heddlu, a ddeilliodd o'r prisiad diwethaf. Pe bai'r gyfradd ddisgownt yn cael ei gostwng eto, byddai hyn yn cynyddu cyfraniad y cyflogwr ymhellach. Ar adeg ysgrifennu hwn, nid oes gennym unrhyw wybodaeth sut y gellid ariannu'r costau uwch hyn.



# COMISIYNU GWASANAETHAU

## Cronfa Trosedd ac Anhrefn 2021-22

Manylir ar ddosbarthiad cyllid am y flwyddyn fel y'i rhennir fesul sefydliad isod;

| Derbynnydd | Pwrpas | Grant |
|---|---|---|
| DASU Gogledd Cymru Cyf | IDVA – Wrecsam a Sir y Fflint | £20,119.50 |
| Canolfan Merched Gogledd Cymru | Cynllun Braenaru Merched<br>Prosiect Ymyrraeth Profiadau weidiol yn ystod Plentyndod (ACE) | £175,956.50<br>£33,490.00 |
| Heddlu Gogledd Cymru | Checkpoint Cymru | £416,750.00 |
| Kaleidoscope | Gweithgareddau Dargyfeirio | £499,265.82 |
| Tîm Troseddau Ieuenctid Conwy a Sir Ddinbych | Gwaith Ieuenctid<br>Cynllun Strategol | £23,273.00<br>£20,384.00 |
| Tîm Ieuenctid Gwynedd a Môn | Gwaith Ieuenctid<br>Cynllun Strategol | £27,350.00<br>£16,464.00 |
| Tîm Troseddau Ieuenctid Wrecsam | Gwaith Ieuenctid<br>Cynllun Strategol | £22,510.00<br>£19,695.00 |
| Tîm Troseddau Ieuenctid Sir y Fflint | Gwaith Ieuenctid<br>Cynllun Strategol | £23,291.70<br>£15,329.58 |
| Taclo'r Tacle | Swydd Rheolwr Rhanbarthol | £15,000.00 |
| Cymorth i Ddioddefwyr | Gweithiwr Caethwasiaeth Modern<br>Gweithiwr Achos Twyll | £38,376.00<br>£37,149.00 |
| Choose 2 Change | Ymyriad Cyflawnwr | £1,485.00 |
| Red Snapper | Hwb Ymyrraeth | £8,000.00 |
| Home Start | Gweithiwr Arweiniol ACE | £30,000.00 |
| Agencia Ltd | Adolygiad o Asesiad Anghenion Dioddefwyr | £14,475.00 |
| **Cyfanswm** | | **£1,458,364.10** |

Fel y crybwyllwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, yn ystod Ionawr 2021 comisiynwyd Agencia Ltd i arwain yr adolygiad o'r Asesiad Anghenion Dioddefwyr. Yn ystod yr adolygiad cwblhaodd Agencia gyfweliadau gyda dioddefwyr ynghyd ag arolwg i ddeall adborth y dioddefwyr a oedd yn sail i'r argymhellion yn yr adroddiad terfynol.

| Derbynnydd | Cyfanswm | Gwasanaeth a Phwrpas |
|---|---|---|
| DASU Gogledd Cymru Cyf | £253,098.47 | Cefnogi 5 Cynghorydd Annibynnol Cam-drin Domestig amser llawn a 2 Gynghorydd Cam-drin Domestig Plant a Phobl Ifanc. |
| Grwp Cynefin | £116,008.53 | Cefnogi 2 Gynghorydd Annibynnol Cam-drin Domestig amser llawn, 1 Cynghorydd Cam-drin Domestig rhan amser ac 1 Cynghorydd Cam-drin Domestig Plant a Phobl Ifanc. |
| Canolfan Gyfeirio Ymosodiadau Rhywiol, BIPBC | £109,212.00 | Cefnogi 2 Gynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol llawn amser. |
| | £43,528.00 | Cyllid parhaus ar gyfer cyllid cymorth trais rhywiol presennol i gefnogi Cynghorydd Trais Rhywiol llawn amser tan 22/23. |
| Canolfan Gefnogi Trais a Cham-drin Rhywiol (RASASC) | £30,000.00 | Cefnogi Eiriolwr Byw Heb Ofn. |
| | £33,000.00 | Cefnogi ISVA cydweithredol gyda Cerrig Camu. |
| Cerrig Camu | £42,732.00 | Cefnogi 1 Cynghorydd Trais Rhywiol llawn amser ac 1 rhan amser ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. |
| | £33,000.00 | Cefnogi ISVA cydweithredol gyda RASASC. |
| **Cyfanswm** | **£660,579.00** | |

| Derbynnydd | Pwrpas | Grant |
|---|---|---|
| DASU Gogledd Cymru Cyf | IDVA – Wrecsam a Sir y Fflint<br>IDVA Sir Ddinbych a Chonwy<br>Codiad Cam-drin Domestig y Weinyddiaeth Gyfiawnder<br>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder<br>Cyllid Cymorth Critigol y Weinyddiaeth Gyfiawnder | £122,149.75<br>£73,138.25<br>£77,606.00<br>£253,098.47<br>£112,118.00 |
| Grwp Cynefin | IDVA – Gwynedd & Mon<br>MOJ Domestic Abuse Uplift<br>MOJ IDVA/ISVA Funding | £85,204.00<br>£33,259.00<br>£116,008.53 |
| RASASC | Child Sexual Abuse<br>MOJ IDVA/ISVA Funding | £56,600.00<br>£63,000.00 |
| Stepping Stones | MOJ IDVA/ISVA Funding | £75,732.00 |
| SARC | ISVA – Regional<br>ISVA – Rape Support Funding<br>MOJ – Sexual Violence Uplift<br>MOJ – IDVA/ISVA Funding | £103,000.00<br>£43,528.00<br>£53,657.00<br>£109,212.00 |
| Victim Support | Victim Help Centre | £376,262.00 |
| Aberconwy Domestic Abuse | MOJ – Critical Support/ Covid Funding | £1,656.24 |
| Clwyd Alyn Women's Aid | MOJ – Critical Support/ Covid Funding | £5,095.76 |
| **Total** | | **£1,760,325.00** |

## CRONFA GWASANAETHAU DIODDEFWYR 2021/22

Yn ogystal â'r Gronfa Diogelwch Cymunedol, rwy'n cael grant gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder bob blwyddyn i gomisiynu gwasanaethau i gefnogi dioddefwyr. Yn ystod 2021/22 rwyf wedi comisiynu'r gwasanaethau canlynol:

- **Canolfan Cymorth i Ddioddefwyr**
- **Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol**
- **Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol**

Yn dilyn datganiad o ddiddordeb llwyddiannus, sicrhaodd Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd £1,312,106 i gefnogi 11.6 o swyddi IDVA a 4.8 o swyddi ISVA ar draws y rhanbarth am ddwy flynedd a oedd yn cynnwys lleoli dau swyddog IDVA Ysbyty yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Glan Clwyd.

Yn ogystal, mae ein Gwasanaeth Comisiynu DASU (Uned Dioglewch Trais Teuluol) hefyd wedi gweithio gyda'r tîm IRIS i ddatblygu prosiect ar draws Gogledd Sir Ddinbych i gefnogi 10 meddygfa i adnabod arwyddion Cam-drin Domestig (IRIS yw cydweithrediad rhwng gofal iechyd sylfaenol a sefydliadau trydydd sector sy'n arbenigo mewn hyfforddiant trais domestig). Mae pob un o'r gwasanaethau isod wedi gwella'r gofal a'r cymorth a roddir i ddioddefwyr troseddau ar draws y Gogledd.

## NAWDD TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL (VAWDASV) 21/22

| Derbynnydd | Pwrpas | Grant |
|---|---|---|
| Cam-drin Domestig Aberconwy | Gofyn a Gweithredu | £3,500.00 |
| Adferiad Recovery | Llety Gwasgaredig<br>Targedu caledu | £138,648.84<br>£14,545.00 |
| BAWSO | VAWDASV Craidd<br>Gofyn a Gweithredu | £20,000.00<br>£2,250.00 |
| Choose 2 Change | Cyflawnwr | £55,516.00 |
| DASU North Wales Ltd | IDVA – Wrecsam a Sir y Fflint<br>IDVA – Sir Ddinbych a Chonwy<br>Llety Dros Dro Hirdymor<br>Refeniw Seiliedig ar Anghenion<br>Tystiolaeth o Bell Addurno<br>Targedu caledu<br>Gofyn a Gweithredu | £58,000.00<br>£100,214.00<br>£113,351.96<br>£91,619.00<br>£1,000.00<br>£15,987.20<br>£4,250.00 |
| Cyngor Sir y Fflint | Tîm Rhanbarthol | £160,430.40 |
| Grwp Cynefin | IDVA – Gwynedd a Môn<br>Addurno Tystiolaeth o Bell<br>Refeniw Seiliedig ar Angen | £78,462.00<br>£1,000.00<br>£68,050.00 |
| Hafan Cymru | Gofyn a Gweithredu | £2,750.00 |
| Red Snapper Ltd | Cyflawnwr | £20,620.00 |
| RASASC | Refeniw Seiliedig ar Anghenion<br>Gofyn a Gweithredu | £40,000.00<br>£8,750.00 |
| SARC | ISVA – Rhanbarthol<br>Refeniw Seiliedig ar Anghenion | £31,000.00<br>£41,315.00 |
| Sign Sight Sound | Fideo Trais Rhywiol i<br>Bobl Ifanc | £10,000.00 |
| Cerrig Camu | Refeniw Seiliedig ar Anghenion | £39,270.00 |
| **Cyfanswm** | | **£1,120,529.40** |

Dyrannwyd Cyllid Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru i DASU Gogledd Cymru ac Adferiad Recovery yn ystod 21/22 i alluogi gwasanaethau i brynu 3 eiddo. Prynodd DASU Gogledd Cymru eiddo les ddaliad i'w ddefnyddio fel lloches a phrynodd Adferiad Recovery 2 fflat. Ymhellach, dyrannwyd cyllid cyfalaf ychwanegol hefyd i'r ddau wasanaeth er mwyn prynu offer caledu targed i gefnogi dioddefwyr trais domestig ar draws y rhanbarth.

Yn dilyn cyflwyniad llwyddiannus i'r Swyddfa Gartref dyrannwyd £485,534.72 i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i gefnogi prosiectau Strydoedd Mwy Diogel 2 yn y Garth a Chonwy.

Dyrannwyd £539,464.43 hefyd i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i gefnogi Strydoedd Mwy Diogel 3 yn Wrecsam a phrosiectau Diogelwch Merched yn y Nos (SWAN) yn Wrecsam a Sir y Fflint.

Mae'r prosiectau Strydoedd Mwy Diogel wedi gallu prynu teledu cylch cyfyng a goleuadau ychwanegol ynghyd ag offer caledu targed, ymgyrchoedd cyfryngau, pecynnau addysgol, a thrwyddedau rhybuddion cymdogaeth.

Mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru dyrannwyd £267,705.00 ychwanegol i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i gefnogi'r Rhaglen Cyflawnwyr Addasu.

Cyhoeddwyd cytundeb compact newydd mewn cydweithrediad â'r Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol ar draws y rhanbarth sydd i'w weld ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.



# SUT I GYMRYD RHAN

## DINASYDDION MEWN PLISMONA

Dinasyddion mewn Plismona, (CiP), yw'r term ymbarél ar gyfer yr holl wirfoddolwyr o fewn y Gwasanaeth Heddlu yn Genedlaethol, gan gynnwys Heddlu Gogledd Cymru, a hefyd y portffolio sy'n cefnogi ac yn datblygu'r gwirfoddoli hwnnw.

Rhennir yr ymdrech wirfoddoli hon yn dri chategori o wirfoddolwyr:

- Heddlu Gwirfoddol
- Gwirfoddolwyr Cefnogi'r Heddlu
- Cadetiaid Heddlu Gwirfoddol

Mae'r Tîm CiP yn cynnwys pum aelod o staff cyflogedig sy'n rheoli ac yn cydlynu'r holl weithgareddau gwirfoddol ar draws Heddlu Gogledd Cymru.

Mae holl bortffolio CiP yn cyfrannu'n uniongyrchol at Weledigaeth yr Heddlu a'i amcanion.

**Cwnstabliaid Gwirfoddol** yw swyddogion heddlu yn gyntaf a gwirfoddolwyr yn ail. Mae ganddynt yr un pwerau â phob cwnstabl, yr un iwnifform a'r rhan fwyaf o'r un offer. Yn ystod y 12 mis diwethaf rydym wedi gweld gostyngiad yn y niferoedd yn bennaf oherwydd rhaglen Operation Uplift y Llywodraeth gyda'i huchelgais i recriwtio mwy o swyddogion rheolaidd; mae hyn wedi denu rhai o'n Heddlu Gwirfoddol i symud ymlaen o fewn yr Heddlu. Rydym wedi ac yn parhau i ddatblygu swyddi arbenigwyr. Yn nodedig, mae gennym yr Uned Heddlu Gwirfoddol Diogelwch Ffyrdd sy'n cyfrannu at ffyrdd mwy diogel a lleihau anafiadau. Mae gennym swyddogion Heddlu Gwirfoddol wedi'u hymgorffori yn y Gwasanaethau Troseddu sy'n cefnogi caethwasiaeth fodern, seiberdroseddu a SAVOU i gyd i gefnogi amcanion yr Heddlu. Rydym wedi bod yn llwyddiannus wrth recriwtio Cwnstabliaid Gwirfoddol Du Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig gan gysylltu â'n Tîm Cynrychioli'r Gweithlu gan gynnig cymorth drwy'r prosesau recriwtio. Mae ein Cwnstabliaeth Gwirfoddol yn cyfrannu 4,500 awr o amser plismona gweithredol y mis ar gyfartaledd, dyblodd hyn yn ystod ein prif ymateb i Covid, ac mae'n ymddangos ei fod wedi parhau wrth i ni ddychwelyd i fusnes fel arfer ar ôl effaith gychwynnol y pandemig, gyda chyfartaledd yn cyfrannu 29 awr fesul Heddlu Gwirfoddol bob mis.

**Mae Gwirfoddolwyr Cefnogi'r Heddlu** yn bennaf o fewn rolau sy'n canolbwyntio ar atal. Rydym yn mynd ati i chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o ymgysylltu â'n cymunedau mewn partneriaeth â'n Gwirfoddolwyr e.e. Mae Gwirfoddolwyr BikeSafe yn canolbwyntio ar leihau anafiadau beiciau modur, mae Gwirfoddolwyr Cyswllt Mosg a Gwirfoddolwyr LHDT+ yn ein cynorthwyo gyda'n hymgysylltiad cymunedol yn ogystal â bod yn sianel ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, mae Gwirfoddolwyr Gwarchod Ceffylau yn cynnig atal a lleihau trosedd i berchnogion ceffylau a'u marchogion. Yn ystod anterth yr ymateb i COVID fe wnaethom nodi ychwanegedd y gallai ein Gwirfoddolwyr Cefnogi'r Heddlu ei gynnig, ac mae hyn bellach wedi'i ymgorffori yn y modd y maent yn cefnogi'r Heddlu.

Mae Gwirfoddolwyr Cefnogi'r Heddlu eraill fel ein harweinwyr sy'n oedolion gyda'n **Cadetiaid Heddlu Gwirfoddol** hefyd oherwydd eu natur yn ymwneud ag atal a gweithredu cymdeithasol. Eu prif ddiben yw rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i'r bobl ifanc sy'n aelodau ohono a'u hannog i ddod yn ddinasyddion model ac i ffwrdd o droseddoldeb a chyfeiriadau eraill llai dymunol. Mae'r Cadetiaid hefyd yn ymwneud yn uniongyrchol â mentrau Atal Troseddu, yn enwedig y rhai sy'n pontio'r bwlch oedran rhwng aelodau iau a hŷn cymdeithas. Mae cadetiaid rhwng 13 a 18 oed.




# ATODIAD A

## PERFFORMIAD 2021/22

Gyda chefnogaeth Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, cytunwyd ar fy Nghynllun a'i gyhoeddi ym mis Medi 2021. Fodd bynnag, ni chytunwyd ar Gynllun Cyflawni'r Prif Gwnstabl ar gyfer yr Heddlu tan fis Ionawr 2022. Yn ystod y cyfnod hwnnw parhawyd i fesur perfformiad yr Heddlu yn erbyn y blaenoriaethau blaenorol ac felly mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn rhoi diweddariad ar gynnydd cyffredinol yn erbyn y blaenoriaethau hynny.

## CAM-DRIN DOMESTIG – PRIF BWYNTIAU

- Roedd nifer y digwyddiadau **Cam-drin Domestig** yn ystod y 12 mis diwethaf yn sylweddol uwch na'r ddau gyfnod blynyddol diwethaf, 17.6% yn uwch nag yn 2019/20 cyn y pandemig. Mae'r ddau gyfnod blynyddol olaf 17.6% yn uwch nag yn 2019/20 cyn y pandemig.



- Mae troseddau Cam-drin Domestig yn 2021/21 wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn dros y ddwy flynedd flaenorol. Mae'r cyfanswm yn y 12 mis diwethaf 33% yn uwch na'r nifer yn 2019/20. Mae digwyddiadau sylfaenol wedi codi 22%, tra bod troseddau ychwanegol wedi cynyddu 98%.
- Mae'r cynnydd sylweddol mewn achosion Cam-drin Domestig ychwanegol ers dechrau blwyddyn ariannol 2020/21 wedi'i gynnal. Erbyn hyn mae troseddau ychwanegol fel arfer yn cyfrif am dros 20% o droseddau cam-drin domestig bob mis.
- Trais heb Anafiadau a Stelcian/Aflonyddu sydd wedi llywio llawer o'r duedd mwyaf mewn troseddau cam-drin domestig. Mae hyn wedi digwydd oherwydd cynnydd sylweddol mewn cofnodi troseddau stelcian ac ymddygiad gorfodol/rheoli dros y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Mae niferoedd misol nad ydynt yn droseddau cam-drin domestig wedi dechrau gweld cynnydd yn dilyn tuedd ar i lawr yn yr hirdymor o 2019. Mae'r cyfanswm treigl blynyddol wedi dechrau cynyddu yn ystod y misoedd diwethaf, er bod nifer 2021/22 yn parhau i fod yn is na chyfanswm 2019/20 (-12.3 %).
- Mae pob Ardal Plismona Lleol (APLI) wedi cofnodi cynnydd o flwyddyn i flwyddyn mewn troseddau cam-drin domestig yn y 12 mis diwethaf o gymharu â 2019/20.
- Mae cyfradd canlyniad 1-8 wedi gweld gostyngiad yn y flwyddyn gyfredol i 7.9%, i lawr o 8.8% yn y flwyddyn flaenorol i fis Mawrth 2021. Mae cyfraddau misol yn ail hanner 2020/21 wedi gweld gwelliant, gyda phob cyfnod misol yn cofnodi cyfraddau canlyniadau uwchlaw'r gyfradd flynyddol gyfredol ar lefel heddlu.

| Adran | Ardal | Adroddwyd BHY | Adroddwyd BDdHY | % Newid | Canlyniad Cyfradd 1-8 BHY | Canlyniad Cyfradd 1-8 BDdHY | Newid pp |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gorllewin | YM | 1,201 | 948 | 26.7% | 11.5% | 11.6% | -0.1 |
| | GN | 1,057 | 941 | 12.3% | 11.0% | 10.4% | 0.6 |
| | GS | 815 | 632 | 29.0% | 10.3% | 10.6% | -0.3 |
| Canol | WC | 1,840 | 1,704 | 8.0% | 6.4% | 6.2% | 0.2 |
| | DC | 2,503 | 1,956 | 28.0% | 6.0% | 7.5% | -1.5 |
| | CR | 824 | 668 | 23.4% | 6.3% | 6.3% | 0.0 |
| Dwyrain | FN | 1,670 | 1,510 | 10.6% | 8.1% | 8.9% | -0.9 |
| | FS | 1,129 | 1,021 | 10.6% | 7.1% | 8.1% | -1.0 |
| | WR | 1,768 | 1,425 | 24.1% | 7.4% | 10.9% | -3.6 |
| | WX | 1,248 | 1,103 | 13.1% | 8.3% | 9.3% | -1.0 |
| **Cyfanswm** | | **14,055** | **11,908** | **18.0%** | **7.9%** | **8.8%** | **-0.9** |

- Bu cynnydd mewn amser ymchwilio gan swyddogion canolrifol ers ail hanner 2021. Y canolrif blynyddol presennol yw 1.7 diwrnod yn hirach nag yn y 12 mis blaenorol. Mae amser cymeradwyo goruchwylwyr wedi cynyddu 0.1 diwrnod yn yr un cyfnod.
- Mae troseddwyr cam-drin domestig mynych wedi gostwng 26% flwyddyn ar ôl blwyddyn, gyda phob un o'r tair adran yn cofnodi gostyngiadau yn y 12 mis diwethaf. Mae cyfansymiau wythnosol diweddar tua diwedd 2021/22 wedi gweld cynnydd a chafwyd newid yn y system. Mae hyn wedi cyd-daro â'r cynnydd diweddar mewn 1-8 canlyniad a digwyddiadau nad ydynt yn droseddau.

- Mae dioddefwyr mynych wedi cynyddu 17% yn y 12 mis diwethaf o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cofnododd pob adran gynnydd canrannol digid dwbl.


**Amcan Strategol: Delio â Chamdrin Domestig**

| Mesur | Ffynhonnell | 12 mis i flwyddyn 2021/52 | 12 mis i flwyddyn 2020/52 | Newid o flwyddyn i flwyddyn | Tuedd 6 mis | Asesiad tymor byr | Asesiad hirdymor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 010: Dioddefwyr mynych cam-drin domestig | RMS trwy BI Launchpad | 3,079 | 2,627 | 17.2% | | O fewn ystod disgwyliedig | Gwella |
| 011: Troseddwyr mynych cam-drin domestig | RMS trwy BI Launchpad | 348 | 473 | -26.4% | | O fewn ystod disgwyliedig | Sefydlog |
| Mesur | Ffynhonnell | 12 mis i Chwe-22 | 12 mis i Chwe-21 | Newid o flwyddyn i flwyddyn | Tuedd 28 mis | Asesiad tymor byr | Asesiad hirdymor |
| 012: Bodlonrwydd dioddefwyr cam-drin domestig â'r holl brofiad | Boddhad dioddefwyr arolygon | 85.3% | 85.8% | -0.5% | | Ddim yn berthnasol | Sefydlog |

- Gwelwyd cynnydd yng nghanran y carcharorion dan glo yn 2021/22 a gyrhaeddodd y ddalfa yn arwain at fechnïaeth amodol o gymharu â 2020/21. Arweiniodd 41.7% o'r rhai a gyrhaeddodd y ddalfa am gam-drin domestig yn 2021/22 at fechnïaeth amodol o gymharu â 33.7% yn 2020/21.
- Mae boddhad dioddefwyr ymhlith dioddefwyr cam-drin domestig yn cymharu'n ffafriol â mathau eraill o droseddau, yn enwedig gyda'r camau gweithredu cychwynnol a gymerwyd a'r profiad cyffredinol. Roedd 85% o ymatebwyr yn fodlon ar eu profiad cyffredinol yn y 12 mis diwethaf.

## TROSEDDAU RHYW – PRIF BWYNTIAU


- Gwelodd Troseddau Rhyw a Gofnodwyd ostyngiad ar gychwyn y cyfyngiadau symud, ond mae'n ymddangos eu bod bellach yn dychwelyd i lefelau blaenorol.



- Gwelwyd cynnydd yn y rhan fwyaf o Ardaloedd Plismona Lleol

| Adran | Ardal | Adroddwyd BHY | Canlyniad Cyfradd 1-8 BHY |
|---|---|---|---|
| Gorllewin | Gogledd Gwynedd | 279 | 10.0% |
| | De Gwynedd | 208 | 18.8% |
| | Ynys Môn | 191 | 6.8% |
| Canol | Conwy Wledig | 159 | 9.4% |
| | Canol Sir Ddinbych | 402 | 7.7% |
| | Gorllewin Conwy | 317 | 11.4% |
| Dwyrain | Gogledd Sir y Fflint | 292 | 9.2% |
| | De Sir y Fflint | 141 | 7.1% |
| | Wrecsam Wledig | 256 | 7.0% |
| | Tref Wrecsam | 232 | 7.8% |
| **Cyfanswm** | | **2,477** | **9.5%** |

- Yn genedlaethol, mae'r gwasanaeth Heddlu yn cofnodi'r ail nifer uchaf o Droseddau Rhyw Eraill



- Mae cyflwyniadau gwybodaeth Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a digwyddiadau Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant wedi gostwng, flwyddyn ar ôl blwyddyn, gydag ychydig o ddigwyddiadau wedi'u nodi dros yr ychydig fisoedd diwethaf.
- Mae cyfradd canlyniadau cadarnhaol ar gyfer troseddau rhyw ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar hyn o bryd.


| Adran | Ardal | Adroddwyd BHY | Adroddwyd BDdHY | % Newid | Canlyniad Cyfradd 1-8 BHY | Canlyniad Cyfradd 1-8 BDdHY | Newid pp |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gorllewin | YM | 243 | 199 | 22.1% | 9.9% | 10.1% | -0.2 |
| | GN | 244 | 194 | 25.8% | 8.2% | 10.8% | -2.6 |
| | GS | 164 | 129 | 27.1% | 6.7% | 14.7% | -8.0 |
| Canol | WC | 343 | 318 | 7.9% | 5.2% | 10.7% | -5.4 |
| | DC | 482 | 280 | 72.1% | 4.4% | 7.9% | -3.5 |
| | CR | 165 | 135 | 22.2% | 4.8% | 13.3% | -8.5 |
| Dwyrain | FN | 264 | 264 | 0.0% | 7.6% | 21.2% | -13.6 |
| | FS | 180 | 164 | 9.8% | 4.4% | 7.3% | -2.9 |
| | WR | 263 | 230 | 14.3% | 7.2% | 11.3% | -4.1 |
| | WX | 225 | 181 | 24.3% | 5.3% | 9.9% | -4.6 |
| **Cyfanswm** | | **2,573** | **2,094** | **22.8%** | **6.3%** | **11.7%** | **-5.5** |

- Mae canlyniadau trais rhywiol yn ôl grŵp oedran yn dangos bod canlyniadau mwy cadarnhaol yn cael eu cyflawni ymhlith dioddefwyr iau.
- Effeithiwyd ar Arfordir Sir Ddinbych ac Abergele gan gofnodi troseddau ychwanegol yn fwy nag unrhyw ardal arall yn yr Heddlu.


## TROSEDDAU GWLEDIG – PRIF BWYNTIAU

- **Digwyddiadau** Gwledig fesul Awdurdod Lleol a Math – 12 mis hyd at Ebrill 2022
- 'Ffermio' yn bennaf gyda Gwynedd yn gweld y nifer mwyaf, gyda Chonwy yn ail

| GAN SIR | BYWYD GWYLLT | FFERMIO | GWLEDIG | ARALL | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| YNYS MON | 14 | 32 | 7 | 6 | **59** |
| GWYNEDD | 29 | 69 | 9 | 10 | **117** |
| CONWY | 21 | 51 | 3 | 17 | **92** |
| SIR DDINBYCH | 16 | 18 | 8 | 5 | **47** |
| SIR Y FFLINT | 13 | 32 | 1 | 9 | **55** |
| WRECSAM | 18 | 36 | 7 | 9 | **70** |
| **Sum:** | **111** | **238** | **35** | **56** | **440** |




| GAN SIR | BYWYD GWYLLT | FFERMIO | GWLEDIG | ARALL | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| YNYS MON | 2 | 11 | 4 | 4 | **21** |
| GWYNEDD | 4 | 24 | 3 | 1 | **32** |
| CONWY | 3 | 9 | 2 | 2 | **16** |
| SIR DDINBYCH | 1 | 9 | 4 | 0 | **14** |
| SIR Y FFLINT | 5 | 7 | 0 | 3 | **15** |
| WRECSAM | 1 | 7 | 3 | 5 | **16** |
| **Sum:** | **16** | **67** | **16** | **15** | **114** |




- **Troseddau** Gwledig fesul Awdurdod Lleol a Math – 12 mis hyd at Ebrill 2022
- Mae cyfran uwch o ddigwyddiadau 'Gwledig' yn cael eu dosbarthu fel trosedd (tua 46%) na mathau eraill

## SEIBERDROSEDDU – PRIF BWYNTIAU

- Mae data gan y Tîm Seiberdroseddu yn seiliedig ar droseddau a gofnodwyd a ddarparwyd gan ROCU ac Action Fraud ac yn dangos lefel isel o adrodd. Mae hyn yn cynrychioli troseddau Seiber-Ddibynnol.



## DIOGELWCH FFYRDD – PRIF BWYNTIAU

- Bu cyfanswm o naw gwrthdrawiad angheuol sydd wedi arwain at 10 o anafiadau angheuol, cynnydd o 60% [pedwar i ddeg ar 4 Mawrth]. Mae'r ffigurau angheuol hyn 42.8% yn uwch nag 2020 [saith i 10] a 233.3% yn uwch na ffigurau 2019 [tri i 10]. Roedd 40% yn ddefnyddwyr ffyrdd agored i niwed [dau gerddwr, un beiciwr pedal ac un beiciwr modur]


| | % Gwahaniaeth Nifer Rhai a Anafwyd o'r Flwyddyn Flaenorol ynghyd â Blwyddyn y Ddamwain | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2021 | | | | 2022 | | | |
| | Angheuol | Difrifol | Mân | **Cyfanswm** | Angheuol | Difrifol | Mân | **Cyfanswm** |
| **Cyfanswm Cyffredinol** | 4 | 27 | 79 | 110 | 5<br>25.00% | 23<br>-14.81% | 64<br>18.99% | 92<br>-16.36% |
| AN | 2 | 5 | 6 | 13 | -100.00% | 1<br>-80.00% | -100.00% | 1<br>-92.31% |
| GN | 1 | 3 | 8 | 12 | 2<br>100.00% | 4<br>33.33% | 9<br>12.50% | 15<br>25.00% |
| CO | | 6 | 12 | 18 | | 5<br>-16.67% | 10<br>-16.67% | 15<br>-16.67% |
| DE | | 2 | 13 | 15 | 2 | 4<br>100.00% | 19<br>46.15% | 25<br>66.67% |
| FL | | 8 | 23 | 31 | 1 | 2<br>-75.00% | 9<br>-60.87% | 12<br>-61.29% |
| WR | 1 | 3 | 17 | 21 | -100.00% | 7<br>133.33% | 17<br>0.00% | 24<br>14.29% |

- Cafwyd cynnydd o 55.5% (27 i 42) mewn dioddefwyr anafiadau difrifol wrth gymharu misoedd tebyg, ond maent -16% yn is na 2020 [50 i 42] a -40.4% yn is na ffigurau 2019 [59 i 42].
- Mae gwahaniaeth amlwg yn y gwrthdrawiadau a ddioddefodd cerddwyr a welwyd yn ystod y cyfnod pandemig yn 2020 a'r hyn y mae'r rhanbarth yn ei weld ar hyn o bryd. Gwelir gwahaniaethau amlwg bellach mewn oedran a ffactorau achosol sy'n ymwneud â'r grŵp hwn a dychweliad i'r hyn a welir yn nodweddiadol yn y grŵp oedran sy'n cynnwys dioddefwyr anafiadau hŷn neu ifanc a'r ffactor achosol sy'n gysylltiedig â nam a dillad tywyll.
- Mae nifer y profion cyffuriau positif yn dangos gostyngiad o -36.3% o gymharu misoedd cymharol [209 i 133] o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Bellach gwelir newid system a newid yn y cyfartaledd cymedrig. Gwelwyd newid mewn tueddiadau yn ystod 2021 ac mae'n cyd-fynd â'r Uned Plismona Ffyrdd yn gweld gostyngiad parhaus yn nifer y canlyniadau cadarnhaol; efallai fod hyn o ganlyniad uniongyrchol i adnoddau a'r broblem fflyd gyfredol er bod hynny'n anodd i'w fesur.
- Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr arestiadau yfed a gyrru yn ystod ymgyrch y Nadolig gyda'r ffigyrau hefyd yn sylweddol uwch nag ymgyrchoedd y flwyddyn flaenorol. Mae'r duedd wedi parhau i mewn i Ionawr a Chwefror 2022. Ar hyn o bryd mae nifer yr arestiadau yfed a gyrru yn 2022 yn gweld cynnydd o 53.57% [84 i 129], gyda'r ffigurau yr un fath ag 2020 a 4.03% yn uwch na ffigurau 2019. Mae'r tueddiadau cynyddol hyn wedi'u nodi'n genedlaethol ac nid ydynt wedi'u hynysu i ranbarth Gogledd Cymru yn unig.
- Mae gweithgor bellach wedi'i sefydlu i ymdrin â rhai o'r problemau parhaus a welwyd ar y B4501 [Triongl EVO], er bod rhan o'r llwybr hwn bellach yn gallu dod yn fyw.

- Mae nifer o ffrydiau gwaith yn mynd rhagddynt o fewn yr uned i gynnwys cynllunio ar gyfer y tymor beiciau modur sydd i ddod ac Asesiad Strategol yr Uned Plismona Ffyrdd. Mae rhagor o fanylion am rywfaint o'r gwaith sy'n mynd rhagddo i'w gweld yn adran tri.

## TROSEDDAU EFFAITH UCHEL – PRIF BWYNTIAU

- Mae'r lefel isel o fyrgleriaeth preswyl yn parhau. Mae cyfradd canlyniad 1-8 wedi gostwng o flwyddyn i flwyddyn. Dim ond De Gwynedd ac Arfordir Sir Ddinbych ac Abergele welodd gynnydd yn y gyfradd hon.





- Mae lladradau a gofnodwyd yn dangos cynnydd o 20.4%


| Adran | Ardal | Adroddwyd BHY | Adroddwyd BDdHY | % Newid | Canlyniad Cyfradd 1-8 BHY | Canlyniad Cyfradd 1-8 BDdHY | Newid pp |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gorllewin | YM | 9 | 1 | 800.0% | 22.2% | - | 22.2 |
| | GN | 15 | 8 | 87.5% | 33.3% | 12.5% | 20.8 |
| | GS | 7 | 7 | 0.0% | 28.6% | 42.9% | -14.3 |
| Canol | WC | 21 | 22 | -4.5% | - | 9.1% | -9.1 |
| | DC | 43 | 32 | 34.4% | 14.0% | 34.4% | -20.4 |
| | CR | 10 | 3 | 233.3% | 30.0% | - | 30.0 |
| Dwyrain | FN | 29 | 23 | 26.1% | 13.8% | 8.7% | 5.1 |
| | FS | 10 | 13 | -23.1% | - | 15.4% | -15.4 |
| | WR | 14 | 14 | 0.0% | - | 7.1% | -7.1 |
| | WX | 43 | 44 | -2.3% | 25.6% | 20.5% | 5.1 |
| **Cyfanswm** | | **201** | **167** | **20.4%** | **16.4%** | **18.6%** | **-2.1** |

- Mae lefelau troseddau casineb wedi cynyddu 27.9% o flwyddyn i flwyddyn.

| | BHY a gofnodwyd | BDdHY a gofnodwyd | % Newid mewn cymh. â BDdHY |
|---|---|---|---|
| Cysylltiedig ag oedran | 2 | 1 | 100.0% |
| Is-ddiwylliant amgen | 5 | 0 | - |
| Anabledd | 223 | 151 | 47.7% |
| Rhywedd | 23 | 12 | 91.7% |
| Hil | 820 | 674 | 21.7% |
| Crefydd | 29 | 34 | -14.7% |
| Cyfeiriadedd rhywiol | 299 | 214 | 39.7% |
| Trawsrywiol | 47 | 52 | -9.6% |
| **Cyfanswm** | **1,394** | **1,090** | **27.0%** |




Newidiadau trosedd cofnodedig yn ôl Ardal Plismona Lleol ac ardal




| Ardal | YTD | LYTD | % Newid |
|---|---|---|---|
| GN | 154 | 152 | 1.3% |
| GS | 104 | 97 | 7.2% |
| YM | 114 | 68 | 67.6% |
| **Gorllewin** | **37.2** | **317** | **17.4%** |
| CR | 65 | 90 | -27.8% |
| DC | 205 | 149 | 37.6% |
| WC | 187 | 132 | 41.7% |
| **Canol** | **457** | **371** | **23.2%** |
| FN | 160 | 116 | 37.9% |
| FS | 95 | 71 | 33.8% |
| WR | 167 | 94 | 77.7% |
| WX | 143 | 121 | 18.2% |
| **Dwyrain** | **565** | **402** | **40.5%** |

- Mae troseddau gynnau'n parhau i weld gostyngiadau ac mae gennym y 6ed lefel genedlaethol isaf.
- Mae Troseddau Cyllyll yn parhau i weld lefelau isel.
- Mae meddiant cyllyll yn cynyddu ac mae canlyniadau cadarnhaol yn lleihau.
- Roedd lladdiadau wedi gweld cynnydd mawr a'r niferoedd bach o flwyddyn i flwyddyn.
- Mae Meddiant Cyffuriau yn gweld gogledd Cymru yn eistedd yn y 228ain safle'n genedlaethol.
- Mae llinellau amser ymchwiliadau Effaith Uchel yn dangos amrywiad bach o flwyddyn i flwyddyn.
- Mae boddhad Troseddau Casineb yn dangos gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn ar draws y rhan fwyaf o agweddau.

| Mesur | 12 mis hyd at Ion-22 | 21- 12 mis hyd at Ion-21 | Newid % |
|---|---|---|---|
| Hwylustod Cysylltu | 90.0% | 93.8% | -3.8 |
| Camau a gymerwyd | 64.4% | 69.5% | -5.1 |
| Dilynwyd i fyny | 65.3% | 63.8% | 1.5 |
| Triniaeth | 82.7% | 88.9% | -6.2 |
| **Holl Brofiad** | **70.7%** | **69.1%** | **1.6** |

## FFRAMWAITH PERFFORMIAD CENEDLAETHOL MAWRTH 2022

| Mesurau | | | Data | | | | % Newid o'r gwaelodlin | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Maes Blaenoriaeth | National Metric | NWP Proxy Measure | Gwaelodlin - 12 mis hyd at fis Mehefin 2019 | 2019/ 20 | 2020/ 21 | **12 mis i'r mis diweddaraf** | 2019/ 20 | 2020/ 21 | **12 mis i'r mis diweddaraf** | Data diweddaraf hyd at |
| Lleihau llofruddiaeth a dynladdiad | Llofruddiaethau a Dynladdiadau | - | 4 | 4 | 6 | 8 | 0% | 50% | 100% | Maw-22 |
| Lleihau troseddau yn y gymdogaeth | Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr Byrgleriaeth, lladrad, dwyn | Lladrad preswyl | 2616 | 2191 | 1421 | 1456 | -16% | -46% | -44% | Maw-22 |
| Lleihau troseddau yn y gymdogaeth | | Lladrad personol | 201 | 200 | 153 | 201 | 0% | -24% | 0% | Maw-22 |
| Lleihau troseddau yn y gymdogaeth | | Dwyn cerbyd | 696 | 612 | 338 | 462 | -12% | -51% | -34% | Maw-22 |
| Lleihau troseddau yn y gymdogaeth | | Dwyn o gerbyd | 1884 | 1036 | 581 | 555 | -45% | -69% | -71% | Maw-22 |
| Lleihau troseddau yn y gymdogaeth | | Dwyn oddi wrth berson | 213 | 208 | 167 | 196 | -2% | -22% | -8% | Maw-22 |
| Gwella boddhad ymhlith dioddefwyr, gyda ffocws penodol ar ddioddefwyr cam-drin domestig | Bodlonrwydd dioddefwyr gyda'r heddlu | Dioddefwyr troseddau HGC yn fodlon ar y cyfan | 74.6 | 78.2 | 78.4 | 71.3 | 3.6 | 3.8 | -3.3 | Chwe-22 |
| Gwella boddhad ymhlith dioddefwyr, gyda ffocws penodol ar ddioddefwyr cam-drin domestig | | Dioddefwyr troseddau casineb HGC yn fodlon ar y cyfan | 71.4 | 69.8 | 74.8 | 69.9 | -1.6 | 3.4 | -1.5 | Chwe-22 |


- Mae llawer o'r mesurau Troseddau Effaith Uchel hefyd yn bwydo i mewn i'r Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol sy'n cymryd llinell sylfaen o'r 12 mis hyd at fis Mehefin 2019 ac yn cymharu hyn â blynyddoedd ariannol 2019/20 a 2020/21 a'r ffigur treigl presennol o 12 mis.

## CAETHWASIAETH FODERN A CHAMFANTEISIO – PRIF BWYNTIAU


- Mae troseddau Caethwasiaeth Fodern a gofnodwyd wedi cynyddu
- Fodd bynnag, mae nifer a chyfran yr NRMS wedi gostwng (mae gan 53.5% NRMS ar gyfer y 12 mis presennol, o gymharu â 70.3% ar gyfer y 12 mis blaenorol)

| Adran | Ardal | Adroddwyd BHY | Adroddwyd BDdHY | % Newid | Canlyniad Cyfradd 1-8 BHY | Canlyniad Cyfradd 1-8 BDdHY | Newid pp |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gorllewin | YM | 10 | 2 | 400.0% | - | - | - |
| | GN | 10 | 4 | 150.0% | - | - | - |
| | GS | 4 | 1 | 300.0% | - | - | - |
| Canol | WC | 11 | 16 | -31.3% | - | 6.3% | -6.3 |
| | DC | 21 | 15 | 40.0% | - | - | - |
| | CR | 8 | 10 | -20.0% | 12.5% | - | 12.5 |
| Dwyrain | FN | 5 | 11 | -54.5% | 20.0% | - | 20.0 |
| | FS | 6 | 7 | -14.3% | - | - | - |
| | WR | 11 | 12 | -8.3% | - | - | - |
| | WX | 10 | 17 | -41.2% | - | - | - |
| **Cyfanswm** | | **96** | **95** | **1.1%** | **2.1%** | **1.1%** | **1.0** |

Caethwasiaeth fodern cofnodedig a Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) y mis yn ôl blwyddyn/mis ariannol



- Mae troseddau CSE a gofnodwyd wedi gweld cynnydd nodedig. Mae hyn o ganlyniad i'r ffordd well o ganfod a chofnodi achosion.




- Mae 12 o unigolion wedi cael eu harestio am droseddau Caethwasiaeth Fodern yn ystod y 12 mis diwethaf.
- Mae 18 o unigolion wedi cael eu harestio am droseddau CSE.
- Mae 1 unigolyn wedi'i arestio am droseddau CCE.
- Mae 34 o unigolion wedi'u nodi fel rhai a ddrwgdybir am droseddau Caethwasiaeth Fodern yn ystod y 12 mis diwethaf.
- Mae 64 o unigolion wedi'u cofnodi fel rhai a ddrwgdybir am droseddau CSE.
- Mae 10 unigolyn wedi'u cofnodi fel rhai a ddrwgdybir am droseddau CCE.

@schthgc_nwopcc

@NorthWalesPCC

opccnorthwales

schthgc_nwopcc

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES